| | |
| --- | --- |
| **Rhif:** | **1** |
| **Cais Rhif:** | **C20/0244/08/LL** |
| **Dyddiad Cofrestru:** | **05-03-2020** |
| **Math y Cais:** | **Llawn** |
| **Cymuned:** | **Penrhyndeudraeth** |
| **Ward:** | **Penrhyndeudraeth** |
| **Bwriad:** | *Mae'r datblygiad canlynol wedi'i leoli o fewn ffiniau Awdurdod Cynllunio Lleol Cyngor Gwynedd: 1) Codi adeilad pen twnnel y Gorllewin (gan gynnwys y compownd adeiladu cysylltiedig) yn Garth ynghyd a thrac mynediad parhaol Mae'r datblygiad canlynol wedi'i leoli o fewn ffiniau Awdurdod Cynllunio Lleol Parc Cenedlaethol Eryri: 2) Codi adeilad pen twnnel dwyreiniol (gan gynnwys y compownd adeiladu cysylltiedig), compownd selio pen a mynediad parhaol yn Cilfor 3) Compownd selio pen newydd ar ochr ddwyreiniol Aber Dwyryd i gysylltu'r ceblau tanddaearol â'r llinell uwchben Nid oes angen caniatâd cynllunio ffurfiol ar gyfer y datblygiad canlynol: Byddai'r cynigion hyn yn galluogi adeiladu twnnel tanddaearol i gynnwys ceblau trydan a chael gwared ar 10 peilon presennol a llinellau uwchben cysylltiedig ar draws Aber Dwyryd Mae'r cais yn croesi'r ffin rhwng Cyngor Gwynedd a Pharc Cenedlaethol Eryri ac felly efallai y byddwch yn derbyn ymgynghoriad gan y ddau awdurdod mewn perthynas â'r datblygiad sydd wedi'i leoli o fewn ei ffiniau.* |
| **Lleoliad:** | Tir Ger Compownd Pennau Selio Garth, Minffordd, Penrhyndeudraeth, |
| **Crynodeb o'r Argymhelliad:** | CANIATÁU GYDAG AMODAU |

## 1 Cefndir:

**1.1** Mae’r cais cynllunio gerbron wedi ei gyflwyno gan y Grid Cenedlaethol ac yn ymwneud a phrosiect ar gyfer tynnu peilonau trydan i lawr rhwng Minffordd a Chilfor (dros y Ddwyryd) a tanddaearu’r gwifrau trydan am bellter o 3.5km.

**1.2** Mae’r prosiect yn ei gyfanrwydd yn croesi ffiniau dau Awdurdod Cynllunio Lleol sef Cyngor Gwynedd a Pharc Cenedlaethol Eryri. Mae ceisiadau cynllunio wedi eu cyflwyno i’r ddau Awdurdod ar gyfer gwaith bwriedig ger safle Garth, ym Minffordd a Chilfor. Mae Awdurdod Cynllunio Lleol Cyngor Gwynedd yn delio gyda’r cais cynllunio am y gwaith bwriedig ger safle’r Garth ym Minffordd, a dyma yw testun y cais cynllunio gerbron. Mae Awdurdod Cynllunio Parc Cenedlaethol Eryri yn delio gyda’r cais cynllunio ar gyfer gwaith bwriedig yng Nghilfor. Mae rhannau perthnasol y ceisiadau yma wedi eu nodi ar y cynlluniau a gyflwynwyd gan yr ymgeisydd.

**1.3** Mae’r ddau gais yn cael eu cyflwyno i’r Pwyllgor Cynllunio perthnasol am benderfyniad.

**1.4** Mae’r prosiect yn rhan o gynllun i liniaru effaith weledol mae seilwaith trydan presennol yn ei gael mewn tirweddau gwarchodedig cenedlaethol ym Mhrydain, ac mae Ofgem wedi cytuno darpariaeth o £500 miliwn ar gyfer prosiectau o fewn y cynllun am gyfnod rhwng 2013 ac 2021.

**1.5** Nod y prosiect a gyfeirir ato fel prosiect Darpariaeth Effaith Weledol ym Mharc Cenedlaethol Eryri (*Visual Impact Provision Project - VIP*) yw lleihau effaith weledol llinell uwch ben Grid Cenedlaethol dros aber afon Dwyryd ger Porthmadog.

**1.6** Mae’r rhan-ddeiliaid wedi cytuno mai’r ffordd orau o wneud hyn yw tynnu darn o’r llinell uwchben i lawr a chladdu’r ceblau trydan mewn twnnel o dan y ddaear yn ei le. Dyma gyfle gwych i warchod a gwella harddwch naturiol, bywyd gwyllt a threftadaeth amgylcheddol y rhan hon o dirwedd werthfawr Eryri.

**1.7** Mae’r darn o’r llinell uwch ben sy’n cael ei ystyried yn rhedeg o Gompownd Pennau Selio (SEC) y Garth ger Minffordd (sydd i’r dwyrain o Borthmadog), ac yn croesi aber afon Dwyryd ym Mhenrhyndeudraeth, lle mae’n cyrraedd pen gorllewinol y Parc Cenedlaethol. Yna, mae’n mynd ymlaen tua’r dwyrain ychydig y tu hwnt i anheddiad bychan Cilfor.

**1.8** Mae’r darn hwn o’r llinell uwch ben, a godwyd yn 1966, yn rhan o linell drydan 400kV sy’n cysylltu is-orsaf 400kV Pentir ger Bangor ag Atomfa Trawsfynydd gynt, sy’n is-orsaf 400kV erbyn hyn.

**1.9** Mae ceblau tanddaear eisoes yn croesi aber afon Glaslyn i’r gorllewin o’r darn lle bwriedir cael y prosiect VIP.

**1.10** Ar hyn o bryd, mae’r peilonau’n cario un gylched 400kV ar y naill ochr i’r peilon, a chylched arall 132kV ar yr ochr arall sy’n rhan o system gweithredwyr y rhwydweithiau dosbarthu (DNO) sef Scottish Power Energy Networks (SPEN) yn yr ardal yma.

**1.11** Nodwyd mewn astudiaeth annibynnol o’r dirwedd fod y darn hwn o’r llinell yn cael effaith fawr ar y dirwedd yn enwedig yng Nghefnwlad Arfordir Ardudwy ac ar ddarn bychan o dirwedd Morfa Harlech. Mae hon yn dirwedd gymhleth a dramatig yn yr ardal rhwng arfordir y Parc Cenedlaethol sy’n boblogaidd gan dwristiaid a’r bryniau gerllaw.

**1.12** Gwelir nodweddion arbennig y Parc Cenedlaethol yn glir yn y dirwedd sy'n hardd iawn ac yn werthfawr o ran cadwraeth a hamdden.

**1.13** Mae'r llinell uwch ben bresennol yn gwrthdaro â chymeriad y dirwedd. Mae'n amlwg iawn ac yn ymwthiol ac mae'n cael dylanwad eang ar y dirwedd o'i chwmpas.

**1.14** Byddai cael gwared â'r llinell uwch ben yn gwella nodweddion arbennig tirwedd yr ardal, yn cynnwys Tirwedd Hanesyddol gofrestredig Aberglaslyn. Byddai golygfeydd ac amgylchoedd parcdir a gerddi cofrestredig Portmeirion a nifer o adeiladau rhestredig ar eu hennill hefyd a byddai'r golygfeydd a welir o ffyrdd a llwybrau lleol a rheilffordd yr arfordir yn gwella pe bai'r peilonau'n cael eu tynnu i lawr.

**1.15** Bwriad y prosiect felly yw gwella edrychiad yr ardal drwy gael gwared ar y peilonau, ac mae'r cynllun yn cynnwys nifer o elfennau gwahanol sydd wedi eu nodi isod.

**1.16** Oherwydd natur prosiect VIP mae'n anorfod fod yr ardal datblygu yn eang iawn ac yn yr achos yma mae'n cynnwys rhannau o Awdurdod Cynllunio Gwynedd ac Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri. Yn ogystal, mae'r prosiect yn ei gyfanrwydd yn golygu fod angen cwrdd gyda chyfuniad o ofynion

**<u>Datblygiad sy'n destun cais cynllunio o fewn ardal Awdurdod Cynllunio Lleol Gwynedd</u>**

**1.17** O fewn ffiniau Awdurdod Cynllunio Lleol Cyngor Gwynedd, mae'r bwriad yn golygu codi adeilad pen twnnel y Gorllewin (gan gynnwys y compownd adeiladu cysylltiedig) ger safle presennol y Grid Cenedlaethol ger Garth ym Minffordd ynghyd a thrac mynediad parhaol.

**1.18** Byddai'r adeilad yma yn mesur oddeutu 15.2m wrth 12.7m a 5.9m o uchder i grib y to. Byddai'r adeilad yma yn darparu mynediad i'r twnnel a fydd yn cynnwys y gwifrau tanddaearol sy'n cymryd lle'r peilonau uwchben, cyfarpar trydanol a mecanyddol gan gynnwys offer awyru bychan, ystafell reoli a chyfleusterau llesiant cyfyngedig. Mae bwriad gorffen yr adeilad gyda charreg gyda gorffeniad llechen lwyd a chladin alwminiwm ar ffurf '*louvres*' ar ffrâm haearn ar y waliau a phaneli sinc ar y to.

**1.19** Mae bwriad darparu compownd cysylltiol sy'n mesur oddeutu 40m wrth 40m ac yn cynnwys 3 llecyn parcio a mynedfa gerbydol a thrac newydd o'r briffordd bresennol i'r de o'r safle yma, ac mae bwriad darparu cylfat dros y draen presennol sydd yn y cae. Mae bwriad darparu ffens fetel 2.4m o uchel (lliw i'w gytuno) o gwmpas yr adeilad, gyda ffens 1m ychwanegol a fyddai wedi ei wefru, a hefyd darparu tirweddu a phlannu cynhenid o gwmpas y safle ar gyfer ei sgrinio.

**1.20** Noder mai dim ond y datblygiad uchod sy'n destun y cais cynllunio sydd gerbron Cyngor Gwynedd, mae gweddill y datblygiad sydd wedi ei nodi isod unai wedi ei leoli o fewn y Parc Cenedlaethol Eryri (ac yn destun cais cynllunio ar wahân), neu yn cael ei ddelio ag o dan ddeddfau ar wahân, neu ddim angen caniatâd cynllunio ffurfio fel sydd wedi ei nodi a'i egluro isod.

**<u>Datblygiad sy'n destun cais cynllunio o fewn ardal Awdurdod Cynllunio Parc Cenedlaethol Eryri</u>**

**1.21** Mae rhan o'r datblygiad wedi ei leoli o fewn ffiniau Awdurdod Cynllunio Lleol Parc Cenedlaethol Eryri, ac mae'r rhan yma yn cynnwys codi adeilad pen twnnel Dwyreiniol (gan gynnwys y compownd adeiladu cysylltiedig), compownd selio pen newydd a mynediad parhaol i'r safle newydd yng Nghilfor.

**1.22** Mae'r adeilad pen twnnel a'r compownd selio pen newydd yma wedi eu lleoli ar yr un safle ger Cilfor ac o fewn Parc Cenedlaethol Eryri. Byddai ôl-troed y compownd selio pen newydd yn mesur oddeutu 28m wrth 50m a byddai'r cyfarpar uchaf ar y safle yma yn mesur oddeutu 6-8m. Byddai'r adeilad pen twnnel yn mesur oddeutu 44.8m wrth 18.5m a 12.7m o uchder. Byddai'r adeilad yma yn darparu mynediad i'r twnnel a fydd yn cynnwys y gwifrau tanddaearol sy'n cymryd lle'r peilonau uwchben, y cyfarpar trydanol a mecanyddol gan gynnwys offer awyru angenrheidiol, ystafell reoli a chyfleusterau llesiant cyfyngedig. Mae bwriad gorffen yr adeilad gyda chladin metel hindreuliedig ynghyd â '*louvres'* awyru ar hyd yr adeilad ynghyd a waliau llechi wedi eu pentyrru a drysau lliw llechi i gydweddu a'r waliau.

**1.23** Mae bwriad darparu compownd cysylltiol sy'n cynnwys 6 llecyn parcio a mynedfa gerbydol a thrac newydd o'r briffordd gyda'r A496 fyddai gyda hyd o oddeutu 290m i'r gogledd ddwyrain ac yn osgoi ardal o fawn sydd ar y safle. Mae bwriad darparu ffens fetel 2.4m o uchel (lliw i'w gytuno) o gwmpas yr adeilad, gyda ffens 1m ychwanegol a fyddai wedi ei wefru, a hefyd darparu tirweddu a phlannu cynhenid o gwmpas y safle ar gyfer ei sgrinio. Mae Cyngor Gwynedd wedi rhoi sylwadau ffurfiol i'r Parc Cenedlaethol ynglŷn â'r rhan yma o'r prosiect, ac nid yw'r elfen yma o'r prosiect yn fater i Gyngor Gwynedd ei benderfynu.

**Datblygiad sy'n disgyn o dan hawliau dirprwyedig a ganiateir**

**1.24** Mae'r prosiect hefyd yn cynnwys darparu twnnel a tanddaearu gwifrau trydan o safle Garth i Cilfor o dan y Ddwyryd ynghyd ac ailwampio'r safle selio pen presennol sydd wedi ei leoli yn Garth. Mae'r twnnel yma yn croesi ffiniau'r ddau Awdurdod Cynllunio (Gwynedd a'r Parc Cenedlaethol Eryri). Byddai'r gwaith tyllu twnnel yn golygu darparu compwond dros dro ar y ddau ochr a gyrru peiriant dril sydd wedi ei ddylunio'n benodol ar gyfer y cynllun yma i lawr siafft gychwynnol y twnnel ar yr ochr gorllewinol o safle ger Garth (ochr Gwynedd) a bydd yn teithio ar hyd llwybr y twnnel arfaethedig i ben ei siwrne ar yr ochr dwyreiniol yng Nghilfor sydd o fewn ardal Parc Cenedlaethol Eryri.

**1.25** Mae'r gwaith ailwampio safle selio pen presennol yng Ngarth yn golygu tynnu'r gantri bresennol ac ail osod cyfarpar na fydd uwch na 10m i uchder. Mae trafodaethau ar y gweill ar gyfer delio gyda deilliant gwastraff a byddai Cyfoeth Naturiol Cymru yn delio gydag unrhyw drwydded ar gyfer ei waredu. Byddai'r prosiect yn ei gyfanrwydd yn digwydd dros gyfnod o 5 mlynedd rhwng 2021 a 2026.

**1.26** Yn dilyn trafodaethau o flaen llaw helaeth gyda'r Grid Cenedlaethol mae'r ddau Awdurdod wedi cytuno fod y datblygiadau penodol yma yn ddatblygiadau a ganiateir o dan Atodlen 2, Rhan 17, Ddosbarth G, o'r Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygiad a Ganiateir Cyffredinol) 1995 (fel y'i diwygiwyd) ac felly nid ydynt angen caniatâd cynllunio ffurfiol.

**Datblygiad sydd eisoes wedi ei ganiatáu o dan Ddeddf Trydan 1947/57**

**1.27** Mae'r prosiect yn cynnwys tynnu rhan o'r llinell drydan uwch ddaear rhwng Garth a Chilfor (sy'n cynnwys 10 o beilonau sydd wedi'u lleoli ar y tir ac o fewn y Ddwyryd) ac mae'r bwriad yma eisoes wedi ei ganiatáu o dan ganiatâd presennol i osod, gweithredu a thynnu'r llinell uwchben a'r peilonau o dan Ddeddf Trydan 1947/57. Mae'r llinell drydan bresennol yn croesi ffiniau'r ddau Awdurdod Cynllunio Lleol ynghyd a'r Ddwyryd. Mae'r ddau Awdurdod wedi cytuno fod y datblygiad eisoes yn dderbyniol gan fod caniatâd blaenorol yn cynnwys yr hawl i ddymchwel/tynnu'r peilonau. Er gwaethaf hyn mae'r gwaith tynnu peilonau sydd wedi ei leoli o fewn y

Ddwyryd hefyd angen trwydded gan Gyfoeth Naturiol Cymru fel sydd wedi ei nodi isod.

**<u>Datblygiad sy'n destun cais am drwydded forol Cyfoeth Naturiol Cymru</u>**

**1.28** Mae cais am drwydded forol wedi ei gyflwyno i Gyfoeth Naturiol Cymru ar gyfer adeiladu twnnel o dan yr amgylchedd morol a gosod y cebl o fewn y twnnel, ac mae Cyngor Gwynedd ac Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri wedi derbyn ymgynghoriad ar gyfer y cais yma.

**1.29** Mae'r Grid Cenedlaethol yn bwriadu cyflwyno cais pellach am drwydded forol ar gyfer tynnu dau beilon sydd wedi eu lleoli yn y Ddwyryd, ynghyd a'u sylfeini a sylfeini'r peilon sydd eisoes wedi ei dymchwel o dan hawliau argyfwng.

**1.30** Nid yw'r materion hyn yn faterion i'r Cyngor eu penderfynu.

**<u>Datblygiad sy'n destun eithriad o dan Ddeddf Trydan 1989</u>**

**1.31** Mae'r bwriad yn golygu darparu un peilon ger yr un presennol ar y safle yn Nghilfor a fyddai'n mesur 53.6m o uchder ar ôl troed oddeutu 60m wrth 60m. Byddai'r peilon yma yn cymryd lle'r peilon presennol tu cefn i'r safle yma a byddai hyn yn hwyluso codi'r gwifrau o'r ddaear o'r compownd pen selio newydd sydd i'w greu yng Nghilfor. Gan fod y rhan yma o'r datblygiad wedi ei leoli o fewn Parc Cenedlaethol Eryri, bydd gofyn fod y Grid Cenedlaethol yn derbyn cadarnhad gan y Parc fod y gwaith yma yn eithriad o dan Adran 37 Ddeddf Trydan 1989 sy'n broses hysbysu ar wahân.

**1.32** Mae'r prosiect yn ei gyfanrwydd wedi ei sgrinio'r ffurfiol yn unol â gofynion Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Asesu Effaith Amgylcheddol) (Cymru) 2017 a Chylchlythyr 11/99 Swyddfa Cymru Asesiad Effaith Amgylcheddol (EIA) gan Awdurdod Cynllunio Parc Cenedlaethol Eryri o dan gyfeirnod NP5/77/E336A a chasglwyd nad oedd y prosiect yn cwrdd â gofynion ffurfiol Atodlen 1 nac Atodlen 2, ond ei fod wedi ei sgrinio beth bynnag a chyrraedd y casgliad nad oedd y bwriad yn ddatblygiad EIA.

**1.33** Mae Cyngor Gwynedd wedi sgrinio'r bwriad sy'n destun y cais gerbron o dan gyfeirnod C20/0519/08/SC a hefyd wedi cadarnhau nad oedd yn ddatblygiad EIA yn yr un modd.

**Disgrifiad y cais ar Safle Garth, Minffordd:**

**1.34** Mae'r bwriad yn golygu codi adeilad pen twnnel y Gorllewin (gan gynnwys y compownd adeiladu cysylltiedig) ger safle presennol y Grid Cenedlaethol ger Garth ym Minffordd ynghyd a thrac mynediad parhaol.

**1.35** Mae safle'r cais gerbron yn gae amaethyddol gwastad wedi ei leoli ar gyrion pentref Minffordd, ac yn agos i safle selio pen presennol sydd gan y Grid Cenedlaethol yng Ngharth. Mae yna dai preswyl i ochr y safle (i'r dwyrain ac i'r de), ac mae caeau amaethyddol yn ymestyn allan i gefn ac i'r gorllewin. Mae ffordd dosbarth III yn rhedeg heibio ffin ddeheuol y safle. Mae ffordd osgoi Porthmadog a'r rheilffordd wedi eu lleoli oddeutu 200m tu cefn i'r safle, ac mae Chwarel Minffordd wedi ei leoli'r ochr arall i'r ffordd osgoi.

**1.36** Mae'r safle wedi ei leoli o fewn parth llifogydd C2, ac mae yna adeilad rhestredig Gradd II wedi ei leoli oddeutu 60m i ffwrdd.

**1.37** Byddai'r adeilad pen twnnel yma yn mesur oddeutu 15.2m wrth 12.7m a 5.9m o uchder i grib y to. Byddai'r adeilad yma yn darparu mynediad i'r twnnel a fydd yn cynnwys y gwifrau tanddaearol sy'n cymryd lle'r peilonau uwchben, cyfarpar trydanol a mecanyddol gan gynnwys offer awyru bychan, ystafell reoli a chyfleusterau llesiant cyfyngedig. Mae bwriad gorffen yr adeilad gyda charreg gyda gorffeniad llechen lwyd a chladin alwminiwm ar ffurf '*louvres'* ar ffrâm haearn ar y waliau a phaneli sinc ar y to.

**1.38** Mae bwriad darparu compownd cysylltiol sy'n mesur oddeutu 40m wrth 40m ac yn cynnwys 3 llecyn parcio a mynedfa gerbydol a thrac newydd o'r briffordd bresennol i'r de o'r safle yma, ac mae bwriad darparu cylfat dros y draen presennol sydd yn y cae. Mae bwriad darparu ffens fetel 2.4m o uchel (lliw i'w gytuno) o gwmpas yr adeilad, gyda ffens 1m ychwanegol a fyddai wedi ei wefru, a hefyd darparu tirweddu a phlannu cynhenid o gwmpas y safle ar gyfer ei sgrinio.

**1.39** Mae'r dogfennau sydd wedi eu cyflwyno fel rhan o'r cais yn cynnwys yr isod:

- Datganiad Dylunio a Mynediad
- Datganiad Iaith Gymraeg
- Arfarniad Amgylcheddol
- Cynllun Rheoli Gwastraff Amlinellol
- Cynllun Rheoli Traffig Adeiladu Amlinellol
- Asesiad Risg Bioddiogelwch
- Cynllun Rheoli Mawnogydd Amlinellol
- Asesiad Risg Llwch
- Datganiad Dull Ymlusgiaid
- Cynllun Rheoli Cynefinoedd Amlinellol
- Adroddiad Ymgynghori Cyn Cyflwyno Cais
- Gwybodaeth SUDS
- Asesiad Canlyniadau Llifogydd
- Montage ffotograffig
- Adroddiad Coed
- Asesiad Effaith Gweledol Tirwedd
- Cynllun Rheoli Amgylcheddol Adeiladu

**2. Polisïau Perthnasol:**

2.1 Mae Adran 38(6) o Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 a pharagraff 2.1.2 Polisi Cynllunio Cymru yn pwysleisio y dylid penderfynu ceisiadau yn unol â'r Cynllun Datblygu, oni bai bod ystyriaeth faterol cynllunio yn nodi fel arall. Mae ystyriaethau cynllunio yn cynnwys Polisi Cynllunio Cenedlaethol, a'r Cynllun Datblygu Lleol.

2.2 Mae'r Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn rhoi dyletswydd ar y Cyngor i ymgymryd â chamau rhesymol wrth arfer ei swyddogaethau i gyflawni'r 7 amcan llesiant sydd o fewn y Ddeddf. Mae'r adroddiad hwn wedi'i baratoi gan ystyried dyletswydd y Cyngor a'r 'egwyddor datblygu gynaliadwy', fel sydd wedi'i ddatgan yn Neddf 2015. Wrth ffurfio'r argymhelliad mae'r Cyngor wedi ceisio sicrhau bod anghenion y presennol yn cael eu diwallu heb beryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion hwythau.

2.3 **Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Gwynedd a Môn 2011-2026 mabwysiadwyd 31 Gorffennaf 2017**

PS 1: Yr iaith Gymraeg a’r diwylliant Cymreig
PS 4: Trafnidiaeth gynaliadwy, datblygiad a hygyrchedd
TRA 2: Safonau parcio
TRA 4: Rheoli ardrawiadau cludiant
PS 5: Datblygu Cynaliadwy
PS 6: Lliniaru effeithiau newid hinsawdd ac addasu iddynt
PCYFF 1: Ffiniau Datblygu
PCYFF 2: Meini Prawf Datblygu
PCYFF 3: Dylunio a Siapio Lle
PCYFF 4: Dylunio a Thirweddu
PCYFF 5: Rheoli Carbon
PCYFF 6: Cadwraeth Dwr
PS 19: Gwarchod a lle bo’n berthnasol gwella’r amgylchedd naturiol
AMG 2: Ardaloedd o Dirwedd Arbennig
AMG 3: Gwarchod a gwella nodweddion a rhinweddau sydd yn nodedig i gymeriad y dirwedd leol
AMG 5: Cadwraeth bioamrywiaeth leol
PS20: Diogelu a lle bo’n berthnasol wella asedau treftadaeth
AT1: Ardaloedd Cadwraeth, safleoedd treftadaeth y byd a thirweddau, parciau a gerddi hanesyddol cofrestredig
AT4: Diogelu Safleoedd Archeolegol nad ydynt wedi’u dynodi a’u gosodiad
PS 22: Mwynau
MWYN 5: Cylchfeydd Rhagod Safleoedd Mwynau

Canllaw Cynllunio Atodol: Ymrwymiadau Cynllunio
Canllaw Cynllunio Atodol: Cynnal a Chreu Cymunedau Nodedig a Chynaliadwy

2.4 **Polisïau Cenedlaethol:**

Deddf Dyletswydd yr Amgylchedd (Cymru) 2016
Polisi Cynllunio Cymru (Argraffiad 10), 2018
Nodyn Cyngor Technegol 5: Cynllunio a Chadwraeth Natur
Nodyn Cyngor Technegol 11: Sŵn
Nodyn Cyngor Technegol 12: Dylunio
Nodyn Cyngor Technegol 15: Datblygu a Pherygl Llifogydd
Nodyn Cyngor Technegol 18: Trafnidiaeth
Nodyn Cyngor Technegol 20: Cynllunio a’r iaith Gymraeg
Nodyn Cyngor Technegol 24: Yr Amgylchedd Hanesyddol

**3. Hanes Cynllunio Perthnasol:**

C18/0962/08/SS - Twnelu Arfaethedig o ran o'r Llinell Uwchben Bresennol (4ZC) a Dileu deg peilon rhwng Compownd Pennau Selio Garth, Minffordd a Chilfor, Gwynedd – DIM ANGEN EIA – 15.02.2019

NP5/77/E336A - Twnelu Arfaethedig o ran o'r Llinell Uwchben Bresennol (4ZC) a Dileu deg peilon rhwng Compownd Pennau Selio Garth, Minffordd a Chilfor, Gwynedd – DIM ANGEN EIA – 08.11.2019

**4. Ymgynghoriadau:**

| | |
|---|---|
| Cyngor Cymuned/Tref: | Heb eu derbyn |

| | |
|---|---|
| Uned Drafnidiaeth: | Mae’r sylwadau isod yn ymwneud a’r datblygiad sydd wedi ei leoli o fewn ffin ACLl Cyngor Gwynedd yn unig. |

| | |
| --- | --- |
| | Cyfeiriaf at y cais uchod a chadarnhaf nad oes gennyf wrthwynebiad i'r bwriad.<br><br>Argymhellaf gynnwys amodau / nodiadau sy'n ymwneud a'r fynedfa bwriedig, gwaith stryd a chytuno symudiadau fel rhan o unrhyw ganiatâd cynllunio a roddir. |

| | |
| --- | --- |
| Cyfoeth Naturiol Cymru: | Mae rhan o'r sylwadau isod yn berthnasol i safle sydd wedi ei leoli yng Nghilfor ac sydd yn rhan o gais cynllunio sydd gan y Parc Cenedlaethol, er hyn mae'r amodau a gynigir yn berthnasol ar gyfer y cais gerbron a'r cais sydd gan y Parc Cenedlaethol.<br><br>Rydym yn deall y bydd cyfran sylweddol o'r gwaith twnelu yn cael ei gynnwys dan Drwydded Forwrol. Gan fod hon yn system ganiatâd ar wahân, nid ydym wedi nodi sylwadau sy'n berthnasol i'r ardal waith hon yn yr ymateb.<br><br>Argymhellwn na ddylech roi caniatâd cynllunio oni bai eich bod yn cynnwys yr amodau a ganlyn. Byddai'r amodau hyn yn ymdrin â phryderon sylweddol yr ydym wedi'u hadnabod, ac ni fyddem yn gwrthwynebu cyhyd â'ch bod yn eu cynnwys ar y caniatâd cynllunio:<br><br>Amod 1 - Tirwedd Warchodedig: Cyflwyno cynllun gofalu am y Dirwedd fanwl mewn perthynas â'r gweithrediad ac ôl-ofal, i'w gymeradwyo cyn i'r datblygiad fynd rhagddo.<br>Amod 2 - Tirwedd Warchodedig: Y datblygwr i gyflwyno byrddau deunyddiau, i'w cymeradwyo gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol cyn i'r datblygiad fynd rhagddo.<br>Amod 3 - Tirwedd Warchodedig, Atal Llygredd, Gwastraff, Safleoedd a Rhywogaethau Gwarchodedig: Dylai'r contractwr (unwaith iddo gael ei benodi), gyflwyno CEMP manwl a dogfennau ategol cysylltiedig a dylai'r Awdurdod Cynllunio Lleol ei gymeradwyo.<br>Amod 4 - Safleoedd a Rhywogaethau Gwarchodedig: Mae'r holl fesurau osgoi a lliniaru sydd wedi'u hadnabod yn yr HRA wedi'u sicrhau'n briodol gydag unrhyw ganiatâd.<br>Amod 5 - Geowyddoniaeth: Llygredd heb ei amau<br><br>**Tirwedd Warchodedig:**<br>Mae'r cynllun yn ei gyfanrwydd yn cynnwys gwaredu'n barhaol oddeutu 3.4km o Lein Dros Ben 400kV (yr is-ran VIP), drwy ddrilio'n uniongyrchol o dan Aber Dwyryd. Byddai 10 peilon a'r gantri presennol yng Nghompownd Pennau Selio Garth yn cael eu gwaredu. Byddai angen dau o adeiladau pen twnnel wedi'u gosod o fewn y Compownd Pennau Selio (SEC) ar bob pen - yn Garth (dwyrain) a Chilfor (gorllewin). Saif y gwaith mewn dau awdurdod Cynllunio, sef Parc Cenedlaethol Eryri a Gwynedd. Mae sylwadau tirwedd CNC yn ymwneud â dylanwad y cynllun ar dirwedd ddynodedig Parc Cenedlaethol Eryri a'i osodiad gweledol. Er ein bod yn gwerthfawrogi bod y cais hwn yn ymwneud yn |

| | |
|---|---|
| | benodol â'r adeiladau ar ben y twneli, rydym wedi cynnwys ein sylwadau tirwedd ar y cynllun yn ei gyfanrwydd yn y llythyr hwn.<br><br>Rydym yn cydnabod, er mwyn i'r cynllun gyflawni ei brif amcan (sef darparu buddion gweledol i Eryri a'r cymunedau lleol), bydd angen cyflwyno datblygiad newydd ac aflonyddwch gwaith adeiladu er mwyn gwaredi seilwaith trydan mawr o aber Dwyryd. Mae hyn o fewn ardal astudiaeth hynod sensitif yn sgil cymeriad y dirwedd, mwynderau gweledol, cynefinoedd a threftadaeth.<br><br>Mae CNC wedi bod yn rhan o nifer o gyfarfodydd ymgynghori cyn gwneud cais ac ymgynghoriadau dros e-bost. Mae hyn wedi golygu bod modd dod i gytundeb ar sgôp yr LVA a'r safbwyntiau ar gyfer yr asesiad. Mae elfennau dylunio'r cynllun sy'n effeithio ar gymeriad a mwynderau gweledol wedi cael eu trafod ac maent wedi esblygu - y mwyaf amlwg yn hyn o beth yw ymddangosiad adeiladau pen y twnnel a'u hintegreiddiad yn y dirwedd.<br><br>Rydym wedi adolygu'r wybodaeth gynllunio a gyflwynwyd ac rydym yn cytuno'n gyffredinol â'r asesiad o'r effeithiau. Mae hyn yn nodi y byddai'r cynllun yn dod â budd cadarnhaol i rinweddau naturiol Aber Dwyryd. Byddai hyn o fudd i werthfawrogiad gweledol Parc Cenedlaethol Eryri, a'i osodiad, gan y cyhoedd.<br><br>Rydym yn ystyried bod y dyluniad a'r dull o integreiddio i'r dirwedd a gymerir at adeilad pen y twnnel newydd yng Nghilfor ym Mharc Cenedlaethol Eryri yn arddangos arfer dda a'i fod yn cefnogi TAN12 Dylunio a bod y cynllun yn ei gyfanrwydd yn cefnogi amcanion polisi PCC10 ar gyfer cadw a chyfoethogi harddwch naturiol tirweddau dynodedig.<br><br>*Arfarniad Tirwedd a Gweledol, Gillespies 2019 (adran 6 1 EA Rhifyn 1):*<br><br>Rydym yn ystyried Adran 6 Tirwedd a Gweledol, ffigyrau cysylltiedig a delweddau montage ffotograffig yn darparu digon o wybodaeth i ystyried effeithiau'r cynllun. Mae'r arfarniad hwn wedi dewis cyfleu mawredd yr effaith, heb gyfleu p'un a yw hyn yn andwyol neu'n fuddiol. Rydym wedi nodi ein safbwynt o ran y meysydd hyn yn yr ymateb hwn, ond efallai y bydd yr awdurdod sy'n gwneud y penderfyniad wneud cais am eglurder ar hyn i gynorthwyo â'r penderfyniad.<br><br>Atodiad 6C: Arfarniad o'r Golyg-bwyntiau<br>Saif 9 Golyg-bwynt ym Mharc Cenedlaethol Eryri Saif 7 Golyg-bwynt (C,G,V,K,W,J ac L) yng Ngwynedd ac mae yno olygfeydd tirwedd agored o'r aber a nenlen Eryri ac mae yno nodweddion a rhinweddau'r dirwedd sy'n cymharu â'r rhai yn Eryri. Mae mawredd yr effeithiau gweledol sydd wedi'u hasesu yn awgrymu'r hyn a ganlyn: |

- Ar hyn o bryd, o ran golygfeydd o lefel isel o fewn oddeutu 400m o'r peilon agosaf neu'n agosach, mae'r peilonau i'w gweld yn erbyn y nenlen ac mae yma gyferbyniad amlwg. Mewn lleoliadau tirwedd agored, byddai cael gwared ar y peilonau yn golygu newid mawr - ac mae'n debygol y byddai hyn yn cael ei ystyried yn effaith buddiol. Byddai 10 o'r golyg-bwyntiau a aseswyd ger coridor y peilonau yn elwa o'r prosiect VIP i'r graddau hyn.
- Mae'r golygfeydd ar lefelau uwch yn dod yn sylweddol fwy estynedig ac mae llai o gyferbyniad rhwng y peilonau presennol yn erbyn cefnlen y tir islaw. Byddai cael gwared ar y peilonau yn cael effaith ar raddfa isel i ganolig.
- O ran golygfeydd agos o'r adeiladau ar ben y twnnel, byddai dau wahanol effaith yn digwydd - byddai cael gwared ar y peilonau presennol yn dod â rhai buddion gweledol; a byddai'r adeilad pen twnnel newydd yn ychwanegu ffurf adeiledig newydd. Rydym yn ystyried mai cyd-destun y dirwedd tuag at yr adeilad twnnel dwyreiniol yng Nghilfor fydd yr un mwyaf sensitif i newid o ystyried y dystiolaeth gref o harddwch naturiol. Fodd bynnag, mae'r deunyddiau arfaethedig, y blaen cromlin, y fframwaith plannu newydd a'r ffordd fynediad gromlin, yn awgrymu bod ystyriaeth ofalus wedi cael ei rhoi i integreiddio i'r dirwedd. Rydym yn cytuno â'r LVA y byddai newid ar raddfa gymedrol yn digwydd. Byddai hyn yn lleihau i newid ar raddfa fechan wrth i'r gwaith plannu sefydlogi, wrth i'r deunyddiau hindreulio ac wrth i'r adeilad ddod yn rhan o'r dirwedd.

O ystyried y sylw sydd wedi'i roi i'r dyluniad cyd-destunol, ni fyddwn yn codi pryderon sylweddol i'r perwyl hwn. Byddai aflonyddwch y gwaith adeiladu a'r effaith ar y tawelwch yn faterion lleol am hyd y gwaith, ond dim ond effaith dros dro fyddai hyn. Rydym yn fodlon nad yw'r effeithiau cronnus yn broblem yn yr achos hwn.

**Montage ffotograffig**

Nodwn fod dau fontage ffotograffig wedi'u cyflwyno i ddangos y ddau adeilad pen twnnel. Yn flaenorol, rydym wedi gweld montage ffotograffig drafft o olygfeydd o'r aber gyda'r seilwaith trydan uwchben a hebddynt. Roeddem wedi disgwyl i'r rhain gael eu cyflwyno gan eu bod yn egluro'r rheswm am y prosiect VIP - er ein bod yn cydnabod nad ydynt o bosib yn uniongyrchol berthnasol i'r cais penodol hwn. Fel y cyfryw, efallai y bydd yr awdurdod sy'n penderfynu yn dymuno gwneud cais am y ffeiliau hyn er mwyn cynorthwyo â'r penderfyniad.

Rydym yn fodlon gyda'r cynigion sydd wedi'u hymgorffori ar gyfer y dirwedd fel y'i diffinnir yn Atodiad 3C: Mesurau

| | |
|---|---|
| | Lliniaru sydd wedi'u Hymgorfforí yn ystod y Gwaith Adeiladu<br><br>*Cynigion lliniaru'r dirwedd ar gyfer adeilad pen twnnel Cilfor ym Mharc Cenedlaethol Eryri (PDD-33494-TUN-039 - P03 Proposed Permanent Development Sheet 6 of 6):*<br><br>Dengys y darlun drefniant cyffredinol y gwaith pridd, a'r cynigion tirweddu caled a meddal. Mae'n dangos llystyfiant sydd wedi'i gadw a'r gwaith tirwedd arfaethedig, gan gynnwys: ymylon o goetir cynhenid a choedlan; coed cynhenid; sgrwb cynhenid cymysg; sgrwb cynhenid cymysg sy'n tyfu ar lefel isel; gwrychoedd cynhenid; glaswelltir sy'n gyfoeth o rywogaethau; a glaswellt wedi'i atgyfnerthu. Y dull cyffredinol ar gyfer hyn yw dull naturiol; sy'n gweithio'n dda â chymeriad y safle ac a fyddai'n ysgafnu ffurf adeilad pen y twnnel wrth i'r gwaith plannu aeddfedu. Mae'r mesurau hyn yn dderbyniol. Mae angen cynllun tirwedd manwl, gyda manylebau ar gyfer plannu, cynnal a chadw a rheoli, fel amod ar unrhyw ganiatâd ac fe ddylai gynnwys y pwyntiau hyn. Yn ogystal, rydym yn awgrymu y dylid ymgorffori cyngor ecolegol yn y fanyleb derfynol sy'n cyfeirio at y stoc planhigion a chreu cynefinoedd.<br><br>Amod 1 - Cyflwyno cynllun gofalu am y Dirwedd fanwl mewn perthynas â'r gweithrediad ac ôl-ofal, i'w gymeradwyo cyn i'r datblygiad fynd rhagddo.<br><br>*Dyluniad yr adeilad a dyluniad y dirwedd ar gyfer adeiladau pen y twnnel a'r* Compownd Pennau Selio*:*<br><br>Mae'r Datganiad Dylunio a Mynediad yn egluro'r ethos sydd wedi'i gymhwyso i ddyluniad adeiladau pen y twnnel. Cyfeiriwyd eisoes at liw y dirwedd a ffurf yr adeilad sy'n ceisio gweddu at y cyd-destun gweledol lle y byddai'r adeiladau i'w gweld. Cefnogwn y dull hwn.<br><br>Fodd bynnag, nid yw'r darluniadau drychiadau a chynllun du a gwyn a gyflwynwyd yn egluro hyn yn llawn. Drwy gyfarfodydd cyn gwneud cais CNC, rydym wedi gweld esblygiad y cynigion pensaernïol, felly mae gennym beth hyder y byddai'r hyn sy'n cael ei gynnig yn briodol yma. Er ymwybyddiaeth y cyhoedd, byddai'n fuddiol pe bai darluniau lliw o'r drychiadau a byrddau deunyddiau i egluro ymddangosiad gweledol yr adeilad a'i berthynas â'r dirwedd yn fuddiol. Fel arall, byddai angen y manylion hyn fel amod ar unrhyw ganiatâd cynllunio.<br><br>Amod 2 - Y datblygwr i gyflwyno byrddau deunyddiau, i'w cymeradwyo gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol cyn i'r datblygiad ddechrau.<br><br>***Adroddiad Asesiad Effaith Coedyddiaeth Cam 1 a 2 RSK 2019:*** |

| | |
| --- | --- |
| | Mae'r coed sy'n cael eu gwaredu a'r tabl effeithiau ar dudalen 9 yn nodi'r categori asesu (A, B a C) a nifer y coed fyddai'n cael eu gwaredu yn sgil y gwrthdaro amlwg â'r ardaloedd gweithio nad oes modd ei osgoi. Fel arfer, mae coed Categori A a B yn ddigon gwerthfawr i'w cadw mewn cynigion datblygu. Noda'r tabl y byddai 23 coeden categori A a 51 coeden categori B yn cael eu gwaredu (ac nid 40 fel y disgrifir yn y testun o dan y tabl). Byddem yn disgwyl i brosiectau seilwaith mawr wneud iawn a darparu budd net ar gyfer y coed nad oes modd osgoi eu colli, fel nad yw'r hyn sy'n aml yn nodwedd gyffredin yn y dirwedd yn cael ei erydu. Er nad yw'r adroddiad coed yn gwneud unrhyw argymhellion, rydym yn ystyried bod y cynlluniau lliniaru'r dirwedd PDD-33494-TUN-038 - P03 (*Proposed Permanent Development Sheet 2 of 6*) a PDD-33494-TUN-039 - P03 (*Proposed Permanent Development Sheet 6 of 6*) yn mynd i'r afael â hyn.<br><br>Gofynnom am asesiad o Glefyd y Coed Ynn (*Ash Dieback*), gan y gallai colli'r gorchudd coed yn y dyfodol achosi i natur amgaeedig a natur gaeedig yn y dirwedd newid yn y dyfodol, gan effeithio ar welededd y seilwaith parhaol. Siart 3.2. Mae'r crynodeb o rywogaethau coed yn nodi'r amrediad o rywogaethau coed sydd i'w canfod yn lleol (deunydd cyfeiriol defnyddiol ar gyfer unrhyw gynlluniau plannu). Mae'n nodi bod Coed Ynn - ar 10% - yn gydran cymharol fechan o'r gorchudd coed yn ardal yr astudiaeth. Felly, ni fyddwn yn disgwyl i'r prosiect VIP roi ystyriaeth i'r goblygiadau o golli coed yn sgil clefyd y coed ynn ar y sail weledol, ac nad oes angen ystyried hyn yng nghynllun lliniaru'r dirwedd.<br><br>***Cynllun Rheoli Amgylchedd Adeiladu Amlinellol (CEMP):***<br><br>Mae'r CEMP amlinellol yn cynnwys mesurau i adeiladu, gweithredu a chynnal a chadw'r Prosiect Arfaethedig. Fodd bynnag, prin yw'r ystyriaethau tirwedd sydd ynddo. Tabl 1: Mae'r Prosiect Arfaethedig yn cyfeirio at fowndio a phlannu i liniaru'r dirwedd a'r gweledol, mowndio a phlannu i liniaru'r dirwedd a'r gweledol (ar ôl aeddfedu'n briodol).<br><br>Rydym yn argymell bod sgôp adran 3.18 yn cael ei ehangu i gynnwys Bioamrywiaeth Daearol y Dirwedd a Chadwraeth Natur.<br><br>Tabl 2: Cyfrifoldebau'r Contractwr - rydym yn argymell bod rôl y clerc gwaith ecolegol yn cael ei ymestyn, neu fod clerc gwaith y dirwedd ar wahân yn cael ei gyflogi, gan fod y gwaith o gymryd trosolwg o fesurau lliniaru'r dirwedd ac ecolegol yn gofyn am ystyriaethau proffesiynol gwahanol.<br><br>Dylid cynnwys y wybodaeth a ganlyn mewn unrhyw CEMP a gynhyrchir yn y dyfodol ar gyfer y cynigion gan gontractwr penodol. |

| | |
|---|---|
| | Amod 3 - Dylai'r contractwr (unwaith y bydd wedi'i benodi) gyflwyno CEMP manwl a dogfennau cefnogi cysylltiedig a dylai'r Awdurdod Cynllunio Lleol eu cymeradwyo.<br><br>**Atal Llygredd:**<br>Rydym wedi adolygu'r Cynllun Rheoli Amgylchedd Adeiladu Amlinellol (CEMP) ac rydym yn fodlon â'r datganiadau sy'n cyfarwyddo'r gwaith yn y dyfodol i lynu at ddogfennau GPP a PPG niferus.<br><br>Nodwn mai'r contractwr fydd yn gyfrifol am gynhyrchu Cynllun Rheoli Dŵr, Cynllun Rheoli Digwyddiad Llygredd a dynodi ardaloedd rhoi tanwydd mewn cerbydau, cynnal a chadw a golchi cerbydau. Dylid cwblhau'r rhain cyn i'r gwaith fynd rhagddo ar y safle ac mae'n rhaid iddynt fod ar gael i CNC eu hadolygu. Dylid darparu hyn yn unol ag Amod 3 sydd wedi'i nodi uchod<br><br>**Gwastraff:**<br>Mae CNC yn nodi ac yn croesawu'r egwyddorion a'r mesurau sydd wedi'u manylu yn y Cynllun Rheoli Gwastraff Amlinellol (OWMP) (Cyfeirnod Adroddiad: 66721R1, Chwefror 2020) (Atodiad 3 y Cynllun Rheoli Amgylchedd Adeiladu (CEMP)). Mae hyn yn ymdrin ag agweddau amrywiol y prosiect ehangach - nid dim ond y rhai sy'n cael eu cynnwys yn y caniatâd cynllunio. Mae'n nodi nifer o feysydd lle:<br><br>• bydd angen deialog bellach â CNC<br>• y gellir bod angen hawlenni / trwyddedau<br>• a lle y bydd dogfennaeth ychwanegol yn cael ei chynhyrchu gan gontractwyr, gan gynnwys Cynlluniau Rheoli Gwastraff Safle (SWMP) a Chynlluniau Rheoli Deunyddiau (MMP).<br><br>Yn unol ag Amod 3, dylai'r rhain gael eu darparu fel rhan / i gefnogi CEMP lle bo hynny'n bosib, gan ganolbwyntio ar neu egluro'r materion hynny sydd yng nghylch gwaith y cais hwn yn benodol.<br><br>Byddwn yn parhau i ymgysylltu â'r datblygwr gan nad yw agweddau amrywiol eraill o'r prosiect o fewn sgôp y broses caniatâd hon. Byddwn yn annog y datblygwr i adnabod cyfleusterau addas oddi ar y safle ar gyfer y dibenion sydd wedi'u manylu yn y cynllun hwn cyn gynted â phosib. Mae gorfodaeth ar yr ymgeisydd i gadw, trin neu gludo unrhyw wastraff sy'n codi o'r prosiect yn unol â deddfwriaeth bresennol y DU a Chymru, gan gynnwys dyletswydd gwastraff adran 34 dan Ddeddf Amddiffyn yr Amgylchedd 1990 a Rheoliadau Caniatâd Amgylcheddol 2016. Yn ogystal, dylid ystyried y pwyntiau a ganlyn: |

- Mae'r Ddyletswydd Gofal yn gymwys i unrhyw un sy'n cynhyrchu, storio, cludo, trin a gwaredu gwastraff.
- Mae CNC yn gofyn i'r cynhyrchwr gwastraff gadw cofnod ysgrifenedig o'r gwastraff a gynhyrchir ac a symudir oddi ar y safle ar ffurf nodiadau trosglwyddo gwastraff.
- Mae CNC yn gofyn i'r contractwr ailgylchu / gwaredu gwastraff sy'n cael ei greu mewn safleoedd gwastraff sydd â chaniatâd priodol.
- Rhaid i unrhyw wastraff a symudir o'r safle gael ei gludo gan gontractwr sy'n gofrestredig fel cludwr gwastraff haen uchel.

**Safleoedd a Rhywogaethau Gwarchodedig:**

*Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd:*

Mae'r Datblygwr wedi cyflwyno dogfen i hysbysu'r HRA (*Visual Impact Provision (VIP) Project – Snowdonia Project – Habitat Regulations Assessment Report*, REV01, Will Holden, 02/12/2019).

Mae'r adroddiad hwn yn nodi'r llwybrau ar gyfer effeithiau posib ar ACA Coedwigoedd Derw a Safleoedd Ystlumod Meirionnydd. Aiff yr adroddiad ymlaen i'r cam Asesiad Priodol ac mae'n cymhwyso mesurau lliniaru. Mae CNC yn fodlon, os yw'r mesurau sydd wedi'u manylu yn yr adroddiad hwn yn cael eu gweithredu, ei bod yn annhebygol y bydd y cynigion yn effeithio ar gyfanrwydd yr ACA.

Fel y cyfryw, rydym yn ystyried y dylai'r mesurau hyn gael eu sicrhau gydag amod priodol.

Amod 4 - Mae'r holl fesurau osgoi a lliniaru sydd wedi'u hadnabod yn yr HRA yn cael eu sicrhau'n briodol ar unrhyw ganiatâd.

*Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA) ac Ystlumod:*

Rydym yn fodlon bod y datblygiad a geisir yma yn annhebygol o gael effaith arwyddocaol ar SoDDGA Glaslyn, SoDDGA Ysbyty Bron y Garth neu ystlumod sy'n defnyddio'r ardal. Mae'r ES wedi nodi y bydd blychau ystlumod yn cael eu codi fel rhan o'r datblygiad hwn. Dylid cytuno ar leoliad y blychau gyda'r Awdurdod Cynllunio lleol. Dylid sicrhau gweddill y mesurau osgoi a lliniaru sydd wedi'u hadnabod o ran y derbynyddion hyn yn unol ag Amod 3.

O ran y prosiect ehangach ac yn enwedig ar gael gwared ar y peilonau, mae pwyntiau y mae angen i'r datblygwr eu hystyried wrth symud ymlaen; gweler manylion isod.

| | |
|---|---|
| | Mae'r llystyfiant rhwng y cynllun hwn a'r A487 yn llwybr hedfan o bwys ar gyfer yr Ystlum Pedol Leiaf i'w helpu i gymudo'n ddiogel o glwydfan Ysbyty Bron y Garth dros a thrwy'r A487 i'r dirwedd ehangach. Mae'r llystyfiant yn gwasanaethu fel cysylltiad rhwng y pontydd a'r ceuffosydd drwy'r ffordd hon.<br><br>Cafodd coed ar hyd y ffordd hon naill ai eu gadael yn eu lle neu gael eu plannu er mwyn cynnal a chyfoethogi'r llwybrau cymudo pwysig hyn i'r ystlumod. I amddiffyn y llwybrau hyn, cawsant eu cynnwys yn SoDDGA Ysbyty Bron y Garth. Byddai'n ymddangos y byddai coed yn y lleoliad hwn wedi cael ei farcio fel rhai gyda'r potensial i gael eu 'heffeithio' ond nid yw'n glir beth yw ystyr hyn - os yw'n unrhyw beth sy'n fwy na changhennau wedi'u clipio, gallai gael effaith andwyol ar y mesur lliniaru gwarchodedig hwn.<br><br>Os bwriedir gwaredu coed a'u hamnewid, dylid nodi nad yw'n debygol y bydd coed newydd yn fesur lliniaru effeithiol i ystlumod am o leiaf 5 i 10 mlynedd, yn ddibynnol ar eu lleoliad ac ar faint y coed a gollwyd. Yn ogystal, byddai'n dda gwybod i ba raddau y mae'r ardaloedd hyn ar droed y peilonau presennol hyn yn cael eu hailblannu neu yn cael eu gadael i ailgydio fel budd net.<br><br>Byddai CNC yn croesawu deialog bellach ar y mater hwn wrth i'r prosiect fwrw yn ei flaen ac ystyried bod mesurau osgoi a lliniaru yn debygol o oresgyn unrhyw effeithiau posib.<br><br>*Dyfrgi:*<br>Rydym yn fodlon mai risg finimal yw'r risg uniongyrchol i ddyfrgwn o'r datblygiad. Mae Mesurau Osgoi Rhesymol sydd wedi'u diffinio yn y CEMP amlinellol sy'n gymwys i'r rhywogaeth hon a dylid trosglwyddo'r rhain ymlaen i unrhyw fersiwn a grëir yn y dyfodol, yn unol ag Amod 3. Yn ogystal, dylai'r datblygwr fanylu ar sut y bydd y risgiau o'r gwaith cloddio yn cael eu rheoli (cael ei orchuddio dros nos, gosod ffens o'i amgylch, darparu rampiau, ac ati), hyd foddhad yr Awdurdod Cynllunio Lleol.<br><br>*Bioddiogelwch:*<br>Mae CNC yn ystyried bod Bioddiogelwch yn ystyriaeth berthnasol ar gyfer y gwaith hwn a'r prosiect yn ei gyfanrwydd. Dylid cyflwyno asesiad risg Bioddiogelwch fel rhan o unrhyw CEMP yn unol ag Amod 3 neu fel dogfen ategol sy'n meintioli'r risgiau uchaf ar y safle yn ddigonol ac yn arddangos bod mesurau yn eu lle i gael gwared ac atal lledaeniad unrhyw Rywogaethau Ymledol Nad ydynt yn Gynhenid i'r ardaloedd gwaith neu ohonynt.<br><br>**Geowyddoniaeth:**<br><br>Amod 5 - Llygredd heb ei amau - Os, yn ystod y gwaith datblygu, y canfyddir bod llygredd na chafodd ei adnabod yn flaenorol, yn y safle, yna ni wneir unrhyw waith datblygu |

| | |
|---|---|
| | pellach (oni bai y cytunir ar hynny yn ysgrifenedig gyda'r Awdurdod Cynllunio Lleol), hyd nes i strategaeth unioni, sy'n manylu sut yr ymdrinnir â'r llygredd heb ei amau, gael ei chyflwyno i'r Awdurdod Cynllunio Lleol a'i gymeradwyo yn ysgrifenedig. Bydd y strategaeth unioni'n cael ei gweithredu yn unol â'r hyn a gymeradwywyd.<br><br>Gwneir hyn i sicrhau yr ymdrinnir â risgiau cysylltiedig â llygredd nad oedd yn cael ei amau yn flaenorol yn y safle drwy strategaeth unioni, i leihau'r risg i ddefnyddwyr y tir a thir gerllaw yn y dyfodol, ac i sicrhau y gellir cwblhau'r datblygiad yn ddiogel heb risgiau annerbyniol.<br><br>*Gwastraff NLQ I 08 ar y safle:*<br>Gwybodaeth / cyngor i'r ymgeisydd:<br>Mae'r gwaith o drin a gwaredu priddoedd sydd wedi'u llygru a dŵr daear wedi'i reoleiddio gan ddeddfwriaeth gwastraff ac mae gofyn am hawlen amgylcheddol.<br><br>Gellir ailddefnyddio'r deunyddiau sydd wedi'u cloddio sy'n cael eu hadennill drwy weithrediad trin ar y safle dan y *CL:AIRE Definition of Waste: Development Industry Code of Practice*. Mae'r Cod Ymarfer gwirfoddol hwn yn darparu fframwaith ar gyfer pennu p'un a fydd deunydd a gloddir sy'n codi o'r safle yn ystod y gwaith adfer ac/neu waith datblygu tir yn wastraff.<br><br>Dylai datblygwyr sicrhau bod yr holl ddeunyddiau llygredig yn cael eu nodweddu'n ddigonol yn gemegol ac yn ffisegol, a bod statws rhoi caniatâd unrhyw weithrediadau arfaethedig ar y safle yn glir. Os oes unrhyw amheuaeth, dylid cysylltu â Chyfoeth Naturiol Cymru am gyngor yn gynnar er mwyn osgoi unrhyw oedi.<br><br>**Mawn:**<br><br>Mae CNC yn fodlon bod effaith y prosiectau ar fawn yn annhebygol o fod yn arwyddocaol o ystyried y mesurau fydd yn cael eu rhoi yn eu lle. Ym mhennod 07 *Ecology* 7.10.18 - nodir fel a ganlyn - "*Peat restoration will be undertaken in a number of areas including: on the excavated slopes around the compound; along the access road; and in areas identified for peat restoration (which may include ditches within the site or remote locations)"*<br><br>Byddem yn nodi na fyddai hyn yn cynnwys ychwanegu *'acrotelm turves'* i oleddfau'r ffordd ac ni ddylid amnewid y *'turves'* unrhyw le lle nad oes mawn neu os pennir bod yr amodau hydrolegol yn anaddas. Os nad yw hyn yn cael ei wneud yn briodol, mae'r *'acrotelm turves'* yn sychu allan ac yn rhyddhau CO2 i'r atmosffer ac yn colli ei swyddogaeth ac felly mae'r mesur yn aneffeithiol. Dylai'r ardaloedd sydd wedi'u nodi ar gyfer eu hatgyweirio gael eu hysbysu ag arolygon mawn manwl a dylai'r Awdurdod Cynllunio Lleol gytuno arnynt. |

| | |
|---|---|
| | **Perygl o Lifogydd:**<br><br>Rydym wedi adolygu'r FCA (*Stantec, Visual Impact Provision (VIP) – Snowdonia Project*, dyddiedig 03/12/2019), a gyflwynwyd i gefnogi'r datblygiad ac rydym yn fodlon bod y cynigion ar gyfer Pen y Twneli i'r Dwyrain a'r Gorllewin yn dderbyniol o ran y perygl o lifogydd ac na fyddant yn cael effaith andwyol ar drydydd partïon o ran colli'r gorlifdir sydd ar gael. Hoffem dynnu eich sylw at y ffaith y bydd y ffordd fynediad newydd tuag at yr Adeilad ar ben y Twnnel dwyreiniol yn agored i elfen o berygl o lifogydd yn ystod digwyddiad o lifogydd eithafol. O ystyried y ffaith y byddai'r ffordd bresennol yn cael ei heffeithio yn barod gan orlifo mewn digwyddiad o'r fath, mae'n annhebygol y bydd hyn yn broblem.<br><br>Bydd y risg o lifogydd sy'n gysylltiedig â'r camau Adeiladu a Dad-gomisiynu yn cael eu cynnwys dan Drwydded Forwrol, a lle bo hynny'n berthnasol, a Hawlen Gweithgarwch Risg Llifogydd (FRAP) fel bo'r angen. Bydd angen Datganiad Dull manwl yn cynnwys mesurau lliniaru'r perygl o lifogydd yn y man, fel rhan o'r ceisiadau hyn.<br><br>**Materion Eraill**<br>Nid yw ein sylwadau uchod ddim ond yn ymwneud yn benodol â materion sydd wedi'u cynnwys ar ein rhestr wirio, *Development Planning Advisory Service: Consultation Topics* (Medi 2018), sydd wedi'i gyhoeddi ar ein gwefan. Nid ydym wedi ystyried yr effeithiau posib ar faterion eraill ac nid ydym yn diystyru'r posibilrwydd y bydd y datblygiad arfaethedig yn effeithio ar fuddion eraill.<br><br>Rydym yn cynghori'r ymgeisydd eu bod yn gyfrifol, yn ogystal â chael caniatâd cynllunio, am sicrhau eu bod yn cael pob hawlen/caniatâd/trwydded sy'n berthnasol i'w datblygiad. Cyfeiriwch at ein gwefan i gael rhagor o fanylion: |

| | |
|---|---|
| Dŵr Cymru: | Mae’r sylwadau isod yn ymwneud a’r datblygiad sydd wedi ei leoli o fewn ffiniau ACLl Gwynedd yn unig.<br><br>**CARTHFFOSIAETH**<br>Heb gynllun o osodiad y draeniau dŵr aflan / strategaeth draenio dŵr aflan arfaethedig, byddem yn gofyn yn garedig i chi, os ydych yn bwriadu rhoi Caniatâd Cynllunio mewn perthynas â'r datblygiad uchod, bod yr Amodau a'r Nodiadau Cynghori a ganlyn mewn perthynas â darparu cynllun draenio dŵr aflan a gofynion SUDS yn cael eu cynnwys yn y caniatâd i sicrhau nad oes unrhyw effaith andwyol ar drigolion presennol neu'r amgylchedd nac ar asedau Dŵr Cymru Welsh Water.<br><br>**CYFLENWAD DŴR** |

| | |
|---|---|
| | Gellir darparu cyflenwad dŵr 'domestig' i wasanaethu'r datblygiad arfaethedig hwn. Efallai y bydd angen i'r datblygwr gyfrannu, dan Adrannau 40 - 41 Deddf Diwydiant Dŵr 1991, tuag at ddarparu prif bibell ddŵr newydd oddi ar y safle ac/neu ar y safle, ynghyd â'r seilwaith cysylltiedig. Cynghorir y datblygwr i gysylltu â ni os oes bwriad i ddefnyddio dŵr yfadwy ar gyfer defnydd diwydiannol/masnachol, gan y gallai cyfyngiadau godi. Nid oes rheidrwydd arnom i ddarparu dŵr yfadwy i'w ddefnyddio mewn unrhyw broses ddiwydiannol. |

| | |
|---|---|
| Uned Gwarchod y Cyhoedd: | Ymateb 11.06.2020 (yn berthnasol i Wynedd a'r Parc)<br><br>Yn dilyn derbyn ymateb yr ymgeisydd i'm sylwadau isod, nodaf y byddai'n anodd iawn rhagweld os byddai'r datblygiad yn debygol o achosi problemau o ran niwsans, ond o'r hyn sydd wedi ei gynnwys yn eu sylwadau, gallai fod o gymorth i geisio rheoli sefyllfa swn o'r hyn sy'n datblygiad a ganiateir, gyda amod yn cyfeirio tuag at y CEMP.<br><br>Ymateb Gwarchod y Cyhoedd 15.05.2020<br>Wedi asesu'r wybodaeth sydd wedi'i chynnwys yn y cais cynllunio ar gyfer y prosiectau uchod sydd wedi'u lleoli yn ardaloedd Cynllunio Cyngor Gwynedd a Pharc Cenedlaethol Eryri. Bydd ein hymateb yn ymdrin â'r ddwy ardal a'r ceisiadau cynllunio. Gweler ynghlwm sylwadau'r Gwasanaethau:-<br><br>Nid yw'r twnelu tanddaearol a'r gwaith o gael gwared ar y peilonau yn ffurfio rhan o'r cais cynllunio hwn gan yr ystyrir hyn yn ddatblygiad a ganiateir. Er bod y Gwasanaeth wedi cyfeirio atynt yn ein hasesiad oherwydd os fydd caniatâd cynllunio yn cael ei roi, bydd y gweithgareddau hyn yn cael eu cynnal hefyd.<br><br>Mae Swyddog o'r Gwasanaeth wedi bod mewn trafodaethau â'r Grid Cenedlaethol cyn cyflwyno'r cais cynllunio mewn perthynas ag oriau gwaith, yr adran fyddai angen gwaith dros 24 awr fyddai'r twnelu. Mae'r gwaith twnelu yn cael ei ddosbarthu fel datblygiad a ganiateir ac felly ni fyddai modd gosod amod ar y sŵn sy'n dod o'r rhan hon o'r gwaith drwy'r broses gynllunio.<br><br>Mae gan ddatblygiad o'r fath y potensial i achosi effaith arwyddocaol ar sŵn, dirgryniad a llwch i eiddo gerllaw a'r ardal gyfagos. Felly, mae'n hanfodol bod mesurau lliniaru cadarn yn cael eu gweithredu i leihau unrhyw effaith amgylcheddol ac iechyd ar yr ardal pe byddai caniatâd cynllunio'n cael ei roi.<br><br>Mae'r Arfarniad Amgylcheddol wedi cynnwys penodau sy'n ymwneud â sŵn ac ansawdd aer sydd wedi cael eu hasesu ar wahân. Mae gwaith monitro sŵn gwaelodol wedi cael eu cynnal ac mae'r lefelau sŵn a ragwelir wedi cael eu cynnwys ym Mhennod 14 yr Arfarniad Amgylcheddol. Mae'r CEMP amlinellol wedi darparu adran fechan ar reoli sŵn ac mae wedi nodi y byddai'r CEMP terfynol yn cael ei baratoi gan y contractwr a benodir fydd yn dewis y mesurau |

| | |
|---|---|
| | lliniaru sydd eu hangen. Byddem yn argymell bod manylion pellach ynghylch y mesurau lliniaru fydd yn cael eu gweithredu yn cael eu darparu yn y CEMP terfynol, a'i fod yn cael ei gyflwyno i'r Awdurdod i'w gymeradwyo cyn i'r gwaith ddechrau, ynghyd â'r lefelau sŵn a ragwelir pan fo'r mesurau lliniaru hyn yn eu lle.<br><br>Mae ein hymateb wedi cael ei anfon fel un ar gyfer Awdurdod Cynllunio Cyngor Gwynedd ac Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri gan fod yr un amodau a sylwadau yn gymwys i'r ddau safle. Mae'r sylwadau sy'n ymwneud ag ochr Ddwyreiniol Cilfor yn unig wedi cael eu nodi mewn italig, a bydd y sylwadau sy'n ymwneud ag ochr Garth yn unig yn cael eu tanlinellu.<br><br>Sŵn a Dirgryniad:<br>Mae asesiad sŵn wedi cael ei gynnal ar gyfer y prosiect cyfan a'r rhagolygon sŵn a ddarparwyd ac a nodwyd ym Mhennod 14 yr Arfarniad Amgylcheddol. Mae'r ymgynghorydd sŵn ar gyfer y prosiect wedi nodi y bydd y lefelau sŵn yn uwch na'r lefelau sŵn a amlinellir yn Safonau Prydeinig 5228: "*Code of Practice for Noise and Vibration Control on Construction and Open Sites*" mewn nifer o eiddo ar ochrau Cilfor a Garth o'r prosiect, os na fydd unrhyw ffurf o fesurau lliniaru sŵn a weithredir. Mae'r Bennod yn parhau i ategu y bydd y mesurau lliniaru sŵn a ddefnyddir yn cael eu nodi gan y contractwr o fewn y CEMP terfynol pan fydd contractwr wedi cael ei benodi. Mae'r ymgynghorydd sŵn wedi adnabod mesurau lliniaru y gellir eu gweithredu ym mharagraffau 14.11 a byddem yn argymell bod y mesurau hyn yn cael eu cymhwyso o fewn y CEMP terfynol a bod amod i'r perwyl hwn yn cael ei osod os fydd caniatâd cynllunio yn cael ei roi. Byddem yn gwneud cais bod y sgriniau acwstig (sy'n cael eu cynnig er mwyn darparu gostyngiad o 10dB o leiaf) a'r llociau acwstig (sy'n cael eu cynnig er mwyn darparu gostyngiad o 15dB) yn cael eu gweithredu i ddarparu lefel mor uchel â phosib o amddiffyniad i drigolion ynghyd â mesurau lliniaru eraill sydd wedi cael eu hadnabod yn adran 14.11 o'r Bennod Sŵn.<br><br>Dylid cyflwyno'r CEMP terfynol i gael ei gymeradwyo gan Awdurdodau Cynllunio a rhaid iddo ymgorffori'r mesurau lliniaru sŵn sydd wedi'u hamlinellu ym mharagraff 14.11 (fydd yn darparu'r lefel uchaf o ostyngiad sŵn), a dangos y bydd y lefelau sŵn islaw'r cyfyngiadau sŵn sydd wedi cael eu gosod gan y Safonau Prydeinig.<br>- Glynir at y mesurau sydd wedi'u hamlinellu yn y CEMP drwy gydol y prosiect.<br><br>Bydd rhyw lefel o sŵn yn gysylltiedig â'r prosiect hwn, ac mae'r oriau adeiladu yn ffordd o reoli'r sŵn. Mae'r oriau wedi cael eu nodi o fewn y CEMP amlinellol a'r Arfarniad Amgylcheddol, ynghyd â'r gwaith cysylltiedig ac mae'n rhaid glynu at yr oriau adeiladu hyn. Twnelu yw'r unig weithgaredd lle bydd angen gwaith am 24 awr er mae hyn yn cael ei ystyried fel datblygiad a ganiateir ac felly ni fydd modd gosod amodau i'r perwyl hwn dan y cais. Mae cytundeb wedi'i gyrraedd ynghylch yr oriau ac rydym yn cynghori bod angen gosod amod mewn perthynas â'r oriau hyn os fydd Awdurdod Cynllunio Cyngor Gwynedd neu Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri yn rhoi caniatâd cynllunio. |

| | |
| --- | --- |
| | - Ni fydd unrhyw waith yn cael ei wneud y tu allan i'r oriau adeiladu craidd sef 0800-1800 Dydd Llun i Ddydd Gwener, 0800-1300 Dydd Sadwrn a dim gweithio ar Ddydd Sul na Gwyliau Banc.<br>- Ni chaniateir symud danfoniadau gan loriau HGV y tu allan i'r oriau gweithio craidd. Ni chaniateir symud deunyddiau/gwastraff a gloddir oddi ar y safle yn ystod penwythnosau na Gwyliau Banc.<br>- Rhaid i'r datblygwr roi gwybod i'r Awdurdod Cynllunio os bydd sefyllfa'n codi lle nad oes modd gweithredu y tu allan i'r oriau gweithio craidd:<br>cwblhau gweithrediadau a ddechreuwyd yn ystod yr oriau gweithio craidd<br>lle nad oes modd rhoi'r gorau iddynt yn ddiogel;<br>unrhyw waith ar y briffordd y ceisir gan yr awdurdod priffyrdd neu y ceisir gan drydydd<br>partïon megis Network Rail, *'escort'* heddlu, ac ati;<br>cwblhau gwaith sydd wedi cael ei oedi neu ei ddal yn ôl gan amodau tywydd garw sydd wedi<br>tarfu neu amharu ar weithgareddau adeiladu arferol<br><br>Bydd pentyrru yn cael ei wneud mewn rhannau o'r prosiect hwn ar yr ochr orllewinol a dwyreiniol. Mae gan weithgaredd o'r fath y gallu i achosi amhariad sŵn. Mae'r Grid Cenedlaethol wedi nodi y byddant yn defnyddio dull pentyrru tawelach drwy ddefnyddio ebill hediad parhaus (*continuous flight auger*) sy'n ddull pentyrru cas dur. Cytunwyd, os bydd caniatâd cynllunio'n cael ei roi, y bydd yr oriau pentyrru yn lleihau a bod dull nad ydyw'n ergydiol yn cael ei fabwysiadu fel y nodir yn y Bennod Sŵn. Rydym yn cynghori bod y dull hwn yn cael ei gynnwys fel amod os bydd caniatâd cynllunio yn cael ei roi.<br>- Rhaid i'r dull pentyrru a fabwysiadir fod yn un nad ydyw o natur ergydiol. Ni ddylid pentyrru oni bai rhwng yr oriau a ganlyn: 9:00 - 17:00 Dydd Llun i Ddydd Gwener yn unig, ni chaniateir pentyrru ar ddydd Sadwrn, dydd Sul na gwyliau banc.<br><br>Mae'r Arfarniad Amgylcheddol wedi cyfeirio at y sŵn o'r twnelu. Mae hwn yn cael ei ddosbarthu fel datblygiad a ganiateir ac nid oes modd gosod amod i'r perwyl hwn fel rhan o'r cais cynllunio. Er nad yw'r cais cynllunio hwn yn mynd law yn llaw â'r gweithgarwch hwn fydd yn cael ei wneud am 17 mis, 24 awr y dydd. Rhaid ymgymryd â mesurau lliniaru cadarn i sicrhau nad yw'r sŵn o'r gweithgarwch hwn yn amharu ar drigolion lleol. Mae'r ymgynghorydd sŵn wedi nodi mesurau lliniaru sŵn i'w mabwysiadu i sicrhau bod y lefelau o fewn y cyfyngiad sŵn sydd wedi'i nodi yn Safonau Prydeinig 5228. Yn dilyn trafodaethau â'r National Grid, maent wedi cadarnhau y bydd yr offer a ddefnyddir yn ystod y nos yn cael ei amgáu, fydd yn darparu gostyngiad o 15Rw. Byddem yn cynghori'r datblygwr i sicrhau bod rhwystr acwstig yn cael ei osod o amgylch y safleoedd.<br>Os bydd caniatâd cynllunio yn cael ei roi, byddai'r Gwasanaeth yn cynghori'r Grid Cenedlaethol bod y mesurau lliniaru sydd wedi cael eu hamlinellu yn y Bennod Sŵn yn cael eu gweithredu, gan gynnwys amgáu offer a rhwystrau acwstig o amgylch ardal y compownd lle bo |

| | |
|---|---|
| | modd, yn unol ag atodiad 14.B, a bod y gweithgareddau swnllyd yn cael eu gwneud yn ystod y dydd.<br><br>Mae'r gwaith o adeiladu'r traciau mynediad wedi cael ei adnabod fel gwaith sydd angen mesurau lliniaru sŵn - heb fesurau lliniaru bydd y sŵn yn uwch na'r lefelau trothwy o fewn safonau BS5228. Y gwaith o adeiladu'r traciau mynediad i'w cyfyngu i'r oriau gweithio craidd.<br><br>Mae'r bont dros dro dros lein rheilffordd i'r gogledd o Gae Ednyfed a Minffordd Station Barn Hall (opsiwn 1) i gael mynediad at beilon 4ZC035 (ochr Garth) a mynediad at beilon 4ZC030R wedi'i amlygu o fewn y bennod sŵn fel un fydd yn creu effaith sŵn arwyddocaol yn ystod y gwaith o adeiladu'r ffyrdd mynediad, fydd hefyd yn uwch na'r lefel sbardun ar gyfer insiwleiddio sŵn. Bydd rhaid cael mesurau lliniaru ychwanegol sy'n dangos y bydd y lefel sŵn yn is na'r lefel trothwy. O ran y bont dros dro (opsiwn 1 ar gyfer 4ZC035), cynghorir os bydd yr opsiwn hwn yn cael ei ddewis, mai dim ond yn ystod y dydd y bydd hyn yn cael ei wneud, gan feddiannu lein y rheilffordd, oni bai y gall mesurau lliniaru ddangos na fydd y sŵn yn effeithio ar drigolion cyfagos.<br>- Rhaid gweithredu mesurau lliniaru ar gyfer adeiladu'r traciau mynediad ar ochrau dwyreiniol a gorllewinol y prosiect.<br><br>Mae dyluniad yr adeilad pen twnnel wedi newid ac felly ni fydd unrhyw system awyru ar ochr Orllewinol Garth ac ni fydd sŵn gweithredol yn broblem. Mae dyluniad yr adeilad pen twnnel ar ochr Ddwyreiniol Cilfor wedi ymgorffori mesurau lliniaru sŵn yn nyluniad yr adeilad (h.y. lwferau acwstig, drysau, waliau, to ac ati), ac mae'r mesurau wedi cael eu nodi ym Mhennod Sŵn 14, paragraff 14.3.51. Pe byddai deunyddiau gwahanol yn cael eu defnyddio, rhaid iddynt feddu ar yr un nodweddion insiwleiddio sŵn (gwerth Rw gostwng sŵn) neu'n well na'r hyn sydd wedi cael ei amlinellu yn y bennod. Mae'r asesiad wedi dangos, gyda'r nodweddion insiwleiddio sŵn sydd wedi'u dylunio i'r adeilad, y bydd lefel y graddfa sŵn yn is na'r lefel sŵn cefndirol presennol. Byddem yn argymell bod yr hyn a ganlyn yn cael ei gymhwyso i unrhyw ganiatâd cynllunio a roddir gan Barc Cenedlaethol Eryri;<br>- *Rhaid i ddyluniad yr adeilad pen twnnel yng Nghilfor weithredu'r nodweddion acwstig sydd wedi'u hamlinellu gan y dyluniad acwstig, a pharagraff 14.3.51 o bennod sŵn 14.*<br><br>*Bydd y gwaith o adeiladu'r peilon newydd ar ochr ddwyreiniol Cilfor yn cael ei gyfyngu i oriau adeiladu craidd yn ystod y dydd, a bydd yr oriau pentyrru a grybwyllwyd uchod yn berthnasol. Mae'r peilon 4ZC027R wedi cael ei drafod yn y bennod sŵn ac fe nodwyd na fyddai newid yn y nodweddion sŵn, y byddai'r dyluniad newydd yn fwy distaw na'r dyluniadau hŷn ac y byddai'n fuddiol.*<br><br>Bydd y prosiect yn creu lefel benodol o sŵn ar gyfer yr ardal ar ochr Garth a Chilfor. Mae'r bennod sŵn wedi nodi'r rhagolygon sŵn ac wedi adnabod ardaloedd lle mae'n rhaid gweithredu mesurau lliniaru er mwyn cyrraedd y cyfyngiadau sŵn o fewn Safonau Prydeinig 5228. Bydd sŵn yn gynnar gyda'r os ar gyfer y twnelu, yn enwedig ar ochr Garth, ac os bydd cwynion yn cael eu derbyn, byddem yn disgwyl i'r Grid Cenedlaethol weithio â thrigolion i ddatrys y problemau, hyd yn |

oed os yw'r gwaith monitro sŵn yn dangos eu bod yn is na'r cyfyngiadau sŵn.

Os bydd caniatâd cynllunio yn cael ei roi, byddem yn argymell bod y pwyntiau a godwyd uchod yn cael eu hamodi er mwyn rheoli lefel y sŵn. Gyda phrosiect o'r maint hwn, mae'n anymarferol i fedru gosod amodau i sicrhau na fydd sŵn yn cael ei glywed, a chyda'r gwaith adeiladu, ni fydd modd cyflawni hyn. Byddai amodau'n cael eu gweithredu er mwyn rheoli lefel y sŵn i sicrhau bod sŵn yn cael ei gadw o fewn arweiniad y safonau Prydeinig. Rhaid cofio bod lefelau sŵn cefndirol isel yn yr ardal, yn enwedig yn ystod y nos, ac mae'r trothwy sŵn a weithredir gan y Safonau Prydeinig yn dal yn uwch na'r lefel sŵn cefndirol cyfartalog yn ystod y nos. Hyd yn oed gyda mesurau lliniaru yn eu lle i gyflawni cyfyngiadau sŵn y Safonau Prydeinig, mae posibilrwydd y bydd trigolion yn cyrraedd rhyw gymaint o sŵn o'r datblygiad hwn. Mae Sefydliad Iechyd y Byd wedi darparu canllawiau ar sŵn yn y nos sy'n nodi: "*Assuming an open window provides a reduction in noise levels of between 10 – 15 dB(A), during the night-time the WHO guidance indicates that external noise levels should remain below 40 – 45 dB LAeq,T to maintain the restorative processes of sleep*".
Mae'r Bennod wedi nodi y bydd gwaith monitro sŵn yn cael ei gynnal drwy gydol y prosiect a byddem yn eich cynghori bod hyn yn cael ei amodi.

- Bydd gwaith monitro sŵn yn cael ei wneud ar ffin yr eiddo preswyl agosaf; i sicrhau nad yw'r trothwy sŵn sydd wedi'i amlinellu yn y CEMP yn cael ei basio (Categori A Safonau Prydeinig 5228)
- Bydd eiddo sy'n sensitif i sŵn yn cael eu hysbysu drwy lythyr neu daflen yn rhoi gwybod iddynt am y rhaglen waith gyda dyddiadau dechrau a chwblhau arfaethedig. Bydd yr hysbysiad hefyd yn cynnwys enwau a rhifau ffôn cysylltiadau ar y safle i ymdrin ag ymholiadau. Bydd y llythyr/taflen hysbysu hefyd yn cael ei anfon i'r Awdurdod Cynllunio ac i'r Adran Gwarchod y Cyhoedd.
- Bydd y datblygwr yn gyfrifol am ymateb i gwynion o fewn cyfnod digonol o amser a lle bo modd fe ddarperir manylion ynghylch y camau unioni a gymerwyd. Bydd pob cwyn yn cael ei chofnodi a rhoddir gwybod i'r Awdurdod Lleol.
- Fe weithredir y mesurau lliniaru sŵn a amlinellwyd yn adran 14.11 o bennod sŵn 14. Gan gynnwys amgáu'r offer sydd wedi'i amlygu yn Atodiad 14.B.

Mae Dirgryniad wedi cael ei nodi o fewn y CEMP a Phennod 14 o'r Arfarniad Amgylcheddol. Nodwyd na fydd y lefelau a ragwelir yn uwch na'r lefelau dirgryniad dan Safonau Prydeinig 5228-2 ar gyfer y gwaith pentyrru fydd yn cael ei gynnal. O fewn canllawiau BS5228-2, gallai lefelau uwchben 1.00mms-1 - 10.0mms-1 achosi cwynion ond fe ellir ei oddef os rhoddir rhybudd ac eglurhad ymlaen llaw i'r trigolion.

Mae'r bennod wedi nodi y bydd y dirgryniad o'r gwaith adeiladu ar ochr Garth yn is na 1.00mms-1, ac felly ni fydd y lefel dirgryniad ar gyfer y gwaith adeiladu ar ochr Garth yn uwch na'r lefel hon.

Mae'r Bennod wedi adnabod tri eiddo lle gallai'r lefel fod ychydig yn uwch na 1.00mms-1 am gyfnod byr o amser yn ystod y gwaith twnelu. Gan nad yw'r twnelu'n rhan o'r cais hwn gan ei fod wedi'i ddosbarthu fel datblygiad a ganiateir, ni fydd modd amodi'r rhan hon o'r gwaith dan y cais hwn. Er ni fydd modd rheoli hyn dan y cais cynllunio hwn. Maent wedi adnabod y bydd angen cyswllt clos gan na fydd modd cael mesurau lliniaru yn erbyn dirgryniad yn y lleoliadau hyn.
Os bydd caniatâd cynllunio'n cael ei roi, rhaid i'r Grid Cenedlaethol fynd ati i wneud gwaith monitro dirgryniad am hyd y prosiect i sicrhau bod y lefelau'n dderbyniol ac nad ydynt yn fwy na'r lefelau sydd wedi'u hamlinellu yn Safon Prydeinig 5228-2 a BS 6472. Ni ddylai'r lefelau dirgryniad fod yn fwy na 1mm/s ppv yn ystod y cyfnod adeiladu gan y gallai hyn gael effaith andwyol.

Halogiad Tir

Rydym yn cytuno ag Adran 10.12.3 y '*Visual Impact Provision (VIP), Snowdonia Project, Environmental Appraisal Volume 1'*. Felly, bydd archwiliad daear yn cael ei gynnal i ganfod beth yw amodau'r ddaear, ynghyd â rhaglen addas o fonitro nwy i ganfod beth yw'r drefn nwy. Yn ogystal, dylai'r archwiliad gynnwys asesiad a chamau adfer (os oes angen) o unrhyw halogiad y deuir ar ei draws. Edrychwn ymlaen at dderbyn copi o'r adroddiad.

Rheoli Llwch ac Ansawdd Aer

Mae Tabl 6 y '*Visual Impact Provision (VIP), Snowdonia Project: Appendix 7 dust Risk Assessment'* yn nodi yr ymgynghorir â'r Awdurdod Lleol ar y waelodlin Llwch, PM10 a PM2.5 ac ynghylch y fethodoleg monitro barhaus. Rhaid glynu at y mesurau sydd wedi'u hamlinellu yn Nhabl 6 drwy gydol y prosiect os bydd caniatâd cynllunio yn cael ei roi.

Ni ddylai gwerth mwy na gwerth yr amcanion cyfredol yn Nhabl 1 isod ddigwydd mewn lleoliadau derbynyddion. Os bydd amcanion newydd yn cael eu cyflwyno, yna byddai'r tabl hwn yn cael ei addasu.
Tabl 1

| **Awdurdod** | **Llygrydd** | **Amcan** | **Wedi'i fesur fel:** | **Perthnasedd** |
|---|---|---|---|---|
| Strategaeth Ansawdd Aer yr UE/DU | PM10 | 50µg/m-3 Yn fwy na hynny < 35 gwaith/y flwyddyn | Cymedr 24 awr | Ansawdd Aer mewn perthynas ag iechyd cyhoeddus |
| Strategaeth Ansawdd Aer yr UE/DU | PM10 | 40µg/m-3 | Cymedr blynyddol | Ansawdd Aer mewn perthynas ag iechyd cyhoeddus |
| Strategaeth Ansawdd | NO2 | 200µg/m-3 | Cymedr fesul awr | Ansawdd Aer mewn perthynas â |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Aer yr UE/DU | | | | iechyd cyhoeddus |
| Strategaeth Ansawdd Aer yr UE/DU | $NO_2$ | 40µg/m-3 | Cymedr blynyddol | Ansawdd Aer mewn perthynas â iechyd cyhoeddus |
| Safon Ansawdd Aer y DU - targed | PM2.5 | Gwerth targed 25µg/m-3 erbyn 2020 | Cymedr blynyddol | Ansawdd Aer mewn perthynas ag iechyd cyhoeddus |

Cysylltwch â David Williams (davidanthonywilliams@gwynedd.llyw.cymru) am unrhyw ymgynghoriad. A allwch chi egluro eich rhesymeg dros beidio â chynnwys gwaith monitro $NO_2$ o ganlyniad i'r cynnydd mewn llif traffig mewn perthynas â'r prosiect a chyfeirio at y canllawiau a ddefnyddiwyd i hysbysu'r penderfyniad hwn.

Uned Bioamrywiaeth:

Mae'r sylwadau isod yn ymwneud a'r datblygiad sydd wedi ei leoli o fewn ffiniau ACLl Gwynedd yn unig.

**Sylwadau 26.05.2020**

Rwyf yn fodlon gyda'r hyn sydd wedi ei gynnig yn e-bost a sylwadau pellach yr ymgeisydd ynghyd a'r wybodaeth Bioamrywiaeth a ddarparwyd yn ddiweddar.

Dylid cynnwys amod fod y Grid Cenedlaethol yn gyrru CEMP eu contractwyr hwy atom am gymeradwyaeth pan fydd ar gael (os yw hyn y dderbyniol o safbwynt cynllunio).

Hefyd hoffwn amodi fod y manylion ynglŷn â lleoliad y blychod nythu yn cael ei gyrru atom am gymeradwyaeth: *"Rydym wedi cynnig eu lleoli ar strwythurau sy'n sefyll ar eu pennau eu hunain neu ar goed aeddfed a bydd hyn yn cael ei gytuno â thirfeddianwyr ac ymgynghoreion."*

Does gen i ddim sylwadau pellach

**Sylwadau 29.04.2020**

Rydym wedi bod yn rhan o'r trafodaethau gyda'r Grid Cenedlaethol ynglŷn â'r datblygiad ers rhai blynyddoedd, felly mae'r mwyafrif helaeth o faterion a phryderon bioamrywiaeth wedi eu datrys cyn i ni gyrraedd y broses cais cynllunio yma. Dim ond rhan gymharol fach o'r datblygiad sydd angen caniatâd cynllunio o fewn ardal Gwynedd. Mae mwyafrif ein sylwadau yn benodol i'r datblygiad yma (yn ardal ACLl Gwynedd) yn unig ac nid y datblygiad ehangach.

| | |
|---|---|
| | Mae nifer fawr o ddogfennau wedi eu cyflwyno gan gynnwys:<br>Adroddiad Ecolegol, (Pennod 7 o'r Gwerthusiad Amgylcheddol Cyfrol 1. Mae'r ddogfen yma wedi ei chefnogi gan yr atodiadau canlynol:<br>• Atodiad 7A - Adroddiad Gwaelodlin Ecolegol (Botaneg) RSK, 2019;<br>• Atodiad 7B - Adroddiad Gwaelodlin Ecolegol (Anifeiliaid) RSK, 2019; a<br>• Atodiad 7C – Ardal Cadwraeth Arbennig (ACA) Coedwigoedd Derw Meirionnydd a Safleoedd Ystlumod Ardal Cadwraeth Arbennig<br><br>Hefyd<br>• Atodiad 2A - Cynllun Rheoli Amgylcheddol Adeiladu Amlinellol (CEMP)<br>• Adroddiad Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd RSK, 2019.<br><br>**Ystlumod**<br>Mae mesurau lliniaru wedi eu cynnig ar gyfer lleihau effaith y datblygiad ar ystlumod a'u poblogaeth gan gynnwys lleihau defnydd golau artiffisial, osgoi golau mewn ardaloedd sensitif yn ystod y broses adeiladu, a'r defnydd o gyflau (*cowls*) i osgoi taflu golau ar ardaloedd sensitif. Dylid amodi fod manylion llawn yr holl fesurau lliniaru yn cael cytuno gyda'r awdurdod cynllunio lleol cyn i'r gwaith gychwyn.<br><br>Mae safle'r cais yn agos i Safle Ewropeaidd: Ardal Cadwraeth Arbennig (ACA) Coedlannau a Safleoedd Ystlumod Meirionnydd.<br>Un o nodweddion y dynodiad yma yw Ystlumod Pedol Lleiaf. Mi fydd rhaid i Gyngor Gwynedd, fel Awdurdod Cymwys gynnal Asesiad Rheoliadau Cynefin tan Reoliad 63 y Rheoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau 2017 (fel y'u diwygiwyd) cyn gallu penderfynu ar y cais.<br><br>Mae'r datblygwr wedi cyflwyno dogfen i helpu'r awdurdod gynnal yr asesiad:<br>(*Visual Impact Provision (VIP) Project – Snowdonia Project – Habitat Regulations Assessment Report*, REV01, Will Holden, 02/12/2019).<br><br>Mae'r adroddiad yn nodi trywydd effaith posibl ar ACA Coedlannau Meirionnydd a Safleoedd Ystlumod. Mae'r adroddiad yn mynd ymlaen i'r cam Asesiad Priodol ac yn ystyried defnydd y mesurau lliniaru a nodir uchod. Canlyniad y ddogfen yw, cyn belled â bod y mesurau lliniaru a ddisgrifir yn yr adroddiad yn cael eu gweithredu, na fydd y datblygiad yn debygol o gael effaith negyddol ar yr ACA.<br><br>Ynghyd a Chyfoeth Naturiol Cymru rydym yn cytuno a chanlyniadau'r ddogfen yma. |

| | |
|---|---|
| | Oherwydd y defnydd o fesurau lliniaru wedi eu hamodi, gall Cyngor Gwynedd fod yn hyderus na fydd y datblygiad yn arwain at Effaith Arwyddocaol Negyddol ar nodweddion na phrosesau Ardal Cadwraeth Arbennig Coedlannau Meirionnydd a Safleoedd Ystlumod.<br><br>**Gwelliannau Bioamrywiaeth (*Enhancements*)**<br><br>Mae'r ddogfen Cynllun lliniaru Cynefinoedd Amlinellol yn sôn am osod blychod nythu (4.4.2 *Bird Box Installation*)<br><br>*Bydd amrywiaeth o flychau adar yn cael eu gosod i ddarparu cynefin nythu ychwanegol i adar sy'n nythu. Dylid ystyried gosod y blychau adar ar agweddau gogledd i ddwyrain y strwythurau er mwyn osgoi golau haul uniongyrchol a gorboethi'r blychau. Bydd blychau sydd ar agor yn y blaen yn cael eu codi ar uchder o 2m, a bydd blychau sydd â thwll yn y blaen yn cael eu gosod ar uchder o 3m. Dylid eu gosod yn ystod yr hydref i roi cyfle i adar ddod o hyd iddynt cyn i'r tymor nythu ddechrau. Dylai pob model o flychau a thiwbiau adar fod yn unol â'r manylebau yn Atodiad 1.*<br>*Argymhellir fod y blychau adar a ganlyn yn cael eu gosod:*<br>• *Dau flwch nythu teras Aderyn y To (Passer domesticus) (Schwegler 1SP)*<br>• *4 blwch adar 26mm sydd â thwll yn y blaen (Schwegler 1B) ar goed sy'n cael eu cadw, sydd heb gael eu blocio gan lystyfiant, er defnydd y Titw Tomos Las (Cyanistes caeruleus) a'r Titw Mawr (Parus major)*<br>*Dau flwch nythu'r wennol ddu (Schwegler 17A) ar uchder o 6m i 7m, os bydd adeilad addas yn cael ei adnabod.*<br><br>Mae'r ddogfen yn ymddangos i sôn am fesurau ar gyfer y Parc Cenedlaethol hefyd, yn ogystal â Gwynedd. Golyga hyn nad yw'n glir pa flychod fydd yn rhan Gwynedd o'r datblygiad. Oes angen haneru'r ffigyrau? Mi fuasai mwy o eglurder am hyn yn help. Neu gyfeiriad at ba ddogfen sy'n cynnwys y wybodaeth.<br><br>**Gwennoliaid Duon [GDs] (*Swifts*)**<br>Rydym ni, ac ecolegydd y Parc Cenedlaethol wedi holi sawl tro am ymgorffori nythod GDs i mewn i'r adeilad "Pen Twnnel". Mae ymateb wedi bod yn negyddol am resymau technegol ynglŷn â chynnal a chadw. Nid yw gosod nythod mewn adeilad newydd yn dir newydd ac mae nifer o enghreifftiau ble mae datblygiadau wedi llwyddo i wneud hyn e.e. Barratt Homes. Siomedig felly na ellir eu hymgorffori i mewn i'r Adeilad Pen Twnnel, sydd gyda waliau uchel wedi eu "cladio" mewn llechen. Yn arbennig o gofio fod y datblygwr yn llwyddo i oroesi problemau technegol o dwnelu drwy graig o dan Aber y Ddwyryd! |

| | |
|---|---|
| | Mae'r datganiad - *"two swift boxes provided should a suitable building be found"* yn wan iawn. Os nad oes adeilad wedi ei ddarganfod erbyn hyn yna mae'r tebygolrwydd y bydd un yn cael ei ddarganfod yn weddol isel. Beth felly fyddai'r opsiwn amgen? Fel ecolegydd y PCE rwy'n gofyn felly i'r' datblygwr ystyried adeiladu strwythur penodol ar gyfer gwennoliaid duon. Mi fyddwn yn falch i gael trafodaethau pellach ynglŷn â'r mater.<br><br>**Cyngor i'r datblygwr**<br>Dylid sicrhau bod cysyllted ecolegol i ystlumod yn y tirlun ehangach y tu allan i ffin y datblygiad yma yn cael ei warchod. Ni ddylid torri coed, llwyni neu wrychoedd sydd yn darparu'r cysylltedd yma |

| | |
|---|---|
| Uned Coed: | Mae'r sylwadau isod yn ymwneud a'r datblygiad sydd wedi ei leoli o fewn ffiniau ACLl Gwynedd yn unig.<br><br>O edrych ar y cynlluniau a'r wybodaeth sydd wedi ei gyflwyno nid oes effaith sylweddol ar sail coed gan fod y datblygiad wedi ei leoli<br>mewn cae, gyda choed cloddiau o'i amgylch.<br><br>Dim gwrthwynebiad i'r cais. |

| | |
|---|---|
| Swyddog Cadwraeth: | Mae'r sylwadau isod yn ymwneud a'r datblygiad sydd wedi ei leoli o fewn ffiniau ACLl Gwynedd yn unig.<br><br>Rhos yw'r eiddo rhestredig agosaf i'r lleoliad yma, ond oherwydd y pellter a hefyd y coed aeddfed o amgylch yr eiddo a'r bwriad o dirlunio, ni chredir y byddai'r bwriad yn debygol o gael unrhyw effaith ar gymeriad yr adeilad na'r gosodiad. Nid oes gwrthwynebiad i'r bwriad. |

| | |
|---|---|
| CADW: | Mae'r sylwadau a ganlyn yn cyfeirio at y ddau gais sydd wedi'u lleoli o fewn ffiniau ACLl Cyngor Gwynedd a Pharc Cenedlaethol Eryri.<br><br><u>Parciau a Gerddi Cofrestredig</u><br>PGW (Gd) 29(GWY) Portmeirion (gradd II*)<br><br><u>Tirwedd Hanesyddol Cofrestredig</u><br>HLW (Gw) 2 Ardudwy<br>HLW (Gw) 7 - Aberglaslyn<br><br>Bydd y datblygiad arfaethedig yn gofyn am adeiladu dau adeilad pen twnnel, un yng Ngarth, ger Minffordd, ac un yng Nghilfor ar ymyl gorllewinol Parc Cenedlaethol Eryri. Yn ogystal, byddai angen Compownd Pennau Selio ym mhen Cilfor er mwyn cysylltu'r ceblau tanddaearol â'r lein uwchben. Byddai'r cynigion hyn yn caniatáu i'r ceblau trydan presennol gael eu rhoi mewn twnnel tanddaearol ac i'r 10 peilon presennol a'r gwifrau uwchben cysylltiedig sy'n croesi Aber Dwyryd i gael eu gwaredu. |

| | |
|---|---|
| | Mae arfarniad amgylcheddol o'r datblygiad arfaethedig wedi cael ei baratoi ac mae hyn yn cynnwys pennod 8 Archeoleg a Threftadaeth Ddiwylliannol sydd wedi ystyried effaith y cynigion ar yr asedau treftadaeth dynodedig uchod.<br><br>Mae'r wybodaeth sydd wedi'i chynnwys yn y bennod hon yn dangos, er bod dau ben y llwybr arfaethedig wedi'u lleoli yn nhirweddau hanesyddol cofrestredig Ardudwy ac Aberglaslyn, bychan iawn fydd unrhyw effaith andwyol uniongyrchol, fan bellaf, a bydd hyn yn cael ei orbwyso gan y gwelliant yn y tirweddau hanesyddol hyn drwy waredu'r peilonau sy'n sefyll. Yn yr un modd, bydd unrhyw effaith ar osodiad parc a gardd hanesyddol gofrestredig Portmeirion yn ystod y gwaith adeiladu yn cael ei orbwyso'n gyfan gwbl gan y buddion a geir drwy gael gwared ar y peilonau. Rydym yn cytuno â'r asesiad hwn. |

| | |
|---|---|
| Gwasanaeth Cynllunio Archeolegol Gwynedd: | Mae'r sylwadau a ganlyn yn berthnasol i'r datblygiad sydd wedi'i leoli yn ffiniau ACLl Cyngor Gwynedd yn unig.<br><br>Rwyf wedi bod yn rhan o'r trafodaethau cyn gwneud cais ynghylch y cynllun hwn fel rhan o'r Grŵp Cyswllt Amgylcheddol, ac wedi bod yn darparu cyngor technegol i ymgynghorwyr archeolegol yr ymgeisydd. Yn ogystal, mae Cyfoeth Naturiol Cymru wedi ymgynghori â ni ar y Cais Trwydded Forwrol ar gyfer y cynllun.<br><br>Rwyf wedi adolygu'r manylion a gyflwynwyd sy'n berthnasol i archeoleg ddaearol ac alltraeth, gan gynnwys y CEMP amlinellol. Gallaf gadarnhau bod y penodau archeolegol a'r atodiadau ategol yn cydymffurfio â'r safonau proffesiynol perthnasol ac yn darparu sail addas ar gyfer gwneud penderfyniadau. Byddwn yn gwneud un mân sylw ar effaith y mesurau lliniaru, sydd am leihau'r niwed a achosir gan y datblygiad yn hytrach na chael gwared arno; yn achos y cynllun hwn, mae'r effaith hynod gadarnhaol fydd cael gwared ar y seilwaith presennol yn ei gael ar Dirweddau Hanesyddol Cofrestredig Aberglaslyn ac Ardudwy yn gwneud iawn am y mân effeithiau andwyol tebygol a geir ar unrhyw olion sydd wedi'u claddu neu wedi suddo. Wedi dweud hyn, mae'r cynigion lliniaru<br>a gyflwynwyd yn briodol ac yn unol â'r trafodaethau cyn gwneud cais ac yn gyffredinol rwyf yn cytuno â chanfyddiadau'r adroddiadau.<br><br>O fewn ardal y datblygiad sydd y tu mewn i ffiniau Awdurdod Cynllunio Lleol Cyngor Gwynedd, mae'r asesiad Archeoleg a Threftadaeth Ddiwylliannol (Pennod 8 yr Adroddiad Arfarniad Amgylcheddol), yn nodi bod gan yr holl waith sydd y tu allan i ôl troed y datblygiad presennol y potensial i ddod ar draws archeoleg nad ydym yn ymwybodol ohono ar hyn o bryd. Disgwylir i unrhyw olion o'r fath fod yn gysylltiedig â gweithgarwch dwysedd isel oedd yn gysylltiedig â'r aber, a allai ddyddio'n ôl i unrhyw |

| | |
|---|---|
| | gyfnod, gyda photensial penodol i ddod ar draws ffordd Rufeinig a osodwyd i basio drwy'r ardal gyffredinol hon. Mae'n annhebygol y bydd olion o'r fath yn cael eu hadnabod drwy werthuso'r caeau ac mae'n debyg na ddaw i'r fei heb fynd ati i wneud gwaith cloddio ar raddfa fawr neu yn ystod y gwaith adeiladu.<br><br>Yn sgil y sylwadau uchod ac yn unol â Pholisi Cynllunio Cymru 10 (Rhagfyr 2018) a NCT24: Yr Amgylchedd Hanesyddol (Mai 2017), argymhellir, pe byddai caniatâd cynllunio'n cael ei roi, dylai'r awdurdod cynllunio lleol osod amod bod mesurau lliniaru archeolegol addas yn cael eu gweithredu.<br><br>Dylai'r mesurau lliniaru gynnwys rhaglen ffurfiol o arsylwadau a recordiadau archeolegol, a elwir yn briff gwylio, ynghyd â gwaith ôl-gloddio ac adrodd fel sy'n briodol ar yr hyn a ddeuir ar ei draws. Rhaid i gwmni archeolegol proffesiynol gynnal y briff gwylio ar sail ddwys, h.y. yn ystod yr holl waith sy'n tarfu ar y ddaear a allai ddatguddio dyddodion archeolegol. Nodaf hefyd bod y gofyn hwn am fesurau lliniaru wedi'i nodi yn y CEMP amlinellol. Croesawir y mesur diogelwch ychwanegol hwn gan y bydd yn tynnu sylw at y gofynion archeolegol ar bob parti; fodd bynnag, nid yw'r paragraffau yn y CEMP amlinellol yn ddigon manwl fel bod modd eu gorfodi, ac felly ystyrir bod angen amod yr un fath.<br><br>Mae amod cyfatebol wedi cael ei argymell ar gyfer y gwaith sydd am ddigwydd o fewn ffiniau Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri. Disgwylir, er cysondeb, y byddai'r mesurau lliniaru yn<br>cael eu cynnal a'u hadrodd dan un gyfres o ddogfennau, gyda chopïau i'w cyflwyno i'r awdurdodau leol. |

| | |
|---|---|
| Parc Cenedlaethol Eryri | Heb eu derbyn |

| | |
|---|---|
| Swyddog Mwynau | Mae’r sylwadau isod yn ymwneud a’r datblygiad sydd wedi ei leoli yn y ddau ACLl.<br><br>Yn dilyn trafodaethau mae’r Grid Cenedlaethol wedi cadarnhau y byddent yn darparu cynllun rheoli gwastraff mwy manwl yn dilyn asesiad pellach. Angen nodyn ar y caniatâd cynllunio i sicrhau trafodaethau pellach o ganlyniad i hyn.<br><br>Dylai'r holl weithrediadau sy'n cynnwys gwaredu, trin neu adfer deilliannau twnnel gael eu cyflawni yn unol â hierarchaeth gwastraff ac amcanion y cynllun rheoli gwastraff amlinellol. Cysylltwch â Gwasanaeth Cynllunio Gwynedd a Chyfoeth Naturiol Cymru mewn perthynas â gofynion y Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol neu statws cynllunio unrhyw gyfleuster rheoli gwastraff neu safle |

| | |
|---|---|
| | arall a nodwyd ar gyfer derbyn, trin neu waredu unrhyw ddeilliant gwastraff. |

| | |
|---|---|
| Network Rail | Mae'r sylwadau a ganlyn yn berthnasol i'r datblygiad sydd wedi'i leoli yn ffiniau ACLl Cyngor Gwynedd yn unig.<br><br>Nid oes gan Network Rail wrthwynebiad mewn egwyddor i'r cynnig uchod ond gan fod y cynnig y drws nesaf i dir Network Rail a'n seilwaith ac er mwyn sicrhau nad oes unrhyw ran o'r datblygiad yn cael effaith andwyol ar ddiogelwch, gweithrediad a chyflawnder y rheilffordd weithredol, rydym wedi cynnwys sylwadau ar warchod asedau ac fe argymhellir yn gryf bod yr ymgeisydd yn gweithredu arnynt os bydd y cynnig yn cael caniatâd cynllunio. |

| | |
|---|---|
| Asiantaeth Cefnffyrdd: | Mae'r sylwadau a ganlyn yn berthnasol i'r datblygiad sydd wedi'i leoli yn ffiniau ACLl Cyngor Gwynedd yn unig.<br><br>Cyfeiriaf at eich ymgynghoriad ar 23/03/2020 ynghylch y cais cynllunio uchod ac fe'ch cynghoraf fod Llywodraeth Cymru fel yr awdurdod priffyrdd ar gyfer cefnffordd yr A487 yn cyfarwyddo y bydd unrhyw ganiatâd a roddir gan eich awdurdod yn cynnwys amod sy'n gofyn am Gynllun Rheoli Traffig Adeiladu (CTMP) cyn i unrhyw waith fynd rhagddo. |

| | |
|---|---|
| Uned Draenio Tir: | Mae’r sylwadau isod yn ymwneud a’r datblygiad sydd wedi ei leoli o fewn ffiniau ACLl Cyngor Gwynedd yn unig<br><br>Gan fod y datblygiad wedi'i leoli o fewn parth llifogydd C2 fe adawn CNC i wneud sylwadau ar y risg llifogydd sy'n gysylltiedig â'r datblygiad arfaethedig.<br><br>Mae ein mapiau yn dangos fod cwrs dŵr yn rhedeg drwy safle’r datblygiad ac mae bwriad gan y datblygwr i osod cylfat o fewn y ffos hon er mwyn caniatáu mynediad i’r safle. Bydd angen Caniatâd Cwrs Dŵr Arferol ar gyfer unrhyw waith a allai effeithio ar lif y ffos yma. Nid yw Cyngor Gwynedd yn gwrthwynebu cylfatio ar gyfer mynediad cyn belled fod pibell o faint addas yn cael ei defnyddio. |

| | |
|---|---|
| Rheolwr Gwasanaeth Iaith: | Mae’r sylwadau isod yn ymwneud a’r datblygiad sydd wedi ei leoli o fewn ffiniau ACLl Cyngor Gwynedd yn unig<br><br>Rwyf yn hapus efo’r datganiad iaith sydd wedi ei gyflwyno yma, oherwydd natur y cais a’r gwaith dan sylw. Mae’n amlwg bod y cwmni wedi ystyried pwysigrwydd y Gymraeg yn yr ardal ac yn ymwybodol iawn o’r angen i gyfathrebu yn ddwyieithog. Maent hefyd yn nodi y byddant yn defnyddio |

| | |
| --- | --- |
| | gweithwyr lleol lle bo hynny yn bosib felly does gen i ddim sylwadau ffurfiol pellach. |

| | |
| --- | --- |
| Gwasanaeth Cynllunio Argyfwng Tan: | Mae'r sylwadau isod yn ymwneud a'r datblygiad sydd wedi ei leoli o fewn ffiniau ACLl Cyngor Gwynedd yn unig<br><br>Bydd gan yr Awdurdod Tân gyfle i gynnig sylwadau ar y mesuriadau diogelwch tân ar ryw eiddo yn ystod y broses Ymgynghori Rheoliadau Adeiladu fel cymwys.<br><br>Mae'r adroddiad ynglŷn â mynediad i gerbydau a chyflenwad dwr.<br><br>**MYNEDFA AR GYFER CERBYDAU TÂN**<br>Dim sylw<br><br>**CYFLENWAD DŴR**<br>Dylai fod hydrant tân o fewn uchafswm o 150m i'r eiddo. |

| | |
| --- | --- |
| Gwasanaeth Cynllunio Argyfwng Heddlu: | Heb eu derbyn |

| | |
| --- | --- |
| Gwasanaeth Cynllunio Argyfwng NHS: | Heb eu derbyn |

| | |
| --- | --- |
| Ymddiriedolaeth Genedlaethol: | Mae rhan o'r sylwadau isod yn berthnasol i safle sydd wedi ei leoli yng Nghilfor ac sydd yn rhan o gais cynllunio sydd gan y Parc Cenedlaethol yn ogystal a'r cais gerbron.<br><br>Mae'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol yn croesawu'r cyfle i ymateb i'r cais hwn. Un o gredoau sylfaenol yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol yw bod llefydd o bwys i bobl. Ein diben craidd statudol yw hyrwyddo a gwarchod mannau o ddiddordeb hanesyddol ac o harddwch naturiol - am byth<br>ac ar gyfer pawb. Dros y 125 mlynedd diwethaf, rydym wedi ceisio'n barhaus i sicrhau bod cefn gwlad, treftadaeth ac amgylchedd naturiol y genedl yn cael eu gwarchod er mwynhad pawb ac<br>i'w hetifeddu gan genedlaethau'r dyfodol. O ganlyniad, mae'r Ymddiriedolaeth wedi cefnogi prosiect VIP y Grid Cenedlaethol (y cynllun y mae'r cynnig hwn yn cael ei gyflwyno oddi tano), ers iddo gychwyn. Rydym wedi gwerthfawrogi ein rhan yn y grŵp rhan-ddeiliaid rhanbarthol ar gyfer prosiect Aber Dwyryd.<br><br>Rydym yn canmol yn gryf ddyhead VIP i gyfoethogi harddwch naturiol mannau arbennig y genedl, Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol (AHNE) a Pharciau Cenedlaethol.<br><br>Mae gan yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol bortffolio tir amrywiol yn Aber Dwyryd yn ogystal â thir ehangach o |

| | |
| --- | --- |
| | fewn ei ddalgylch gweledol. Rydym yn berchen ar dir ar yr aber (ffurfio rhan o'r mynediad)<br>yn destun gwaredu peilonau 4ZC030, 4ZC030R a 4ZC031: tir sydd wedi'i gynnwys yn y Drwydded Forwrol yn y dyfodol er mynediad adeiladu. Rydym yn berchen ar dir gerllaw'r aber fydd<br>yn dod â newid trawsffurfiol yn ei flaen, ac rydym yn berchen ar lawer o gefnlen yr aber, gan gynnwys y mynydd yng Nghnicht fydd yn dod â llawer o olygfeydd hirbell glanach i mewn ac allan o Barc Cenedlaethol Eryri.<br><br>Yng nghyffiniau'r datblygiad ei hun, rydym yn cytuno â chasgliadau'r Arfarniad Amgylcheddol y bydd buddion mawr o ran y dirwedd ac effeithiau gweledol yn debygol o godi unwaith y bydd y datblygiad yn weithredol ar gyfer cymunedau lleol ac ymwelwyr a defnyddwyr Llwybr Arfordir Cymru, y llwybrau hamdden hirfaith a'r ddau Lwybr Beicio Cenedlaethol yn yr ardal boblogaidd hon.<br><br>O ran effaith y gwaith adeiladu a nodwyd drwy'r EA, hyderwn y bydd y Cyngor yn sicrhau bod y rhain yn cael eu hisafu lle bynnag y bo modd a sicrhau bod materion megis y CEMP yn ddigon cadarn i sicrhau<br>mai effeithiau cyfyngedig a geir ar y rhwydwaith ffordd lleol yn ystod y gwaith adeiladu, a bod unrhyw darfu ar gymunedau lleol ac ymwelwyr yn cael ei leihau hefyd.<br><br>Mae gennym nifer o sylwadau mwy manwl y dymunwn eu codi;<br><br>*Cyfathrebu ac ymgysylltu*<br>Rydym yn croesawu'r ymrwymiad (ar ôl i ganiatâd gael ei roi) y bydd cynllun cyfathrebu yn cael ei baratoi i adnabod y dull a ddefnyddir i ymgysylltu'n barhaus â rhan-ddeiliaid a'r cyhoedd fel ei gilydd hyd nes y bydd y gwaith adeiladu'n mynd rhagddo, ac yna drwy gydol y gwaith adeiladu a'r cyfnod adfer. Bydd hyn yn hanfodol i sicrhau bod cymunedau a thirfeddianwyr lleol yn gwbl ymwybodol o'r hyn sy'n mynd ymlaen yn ystod y broses a bydd yn rhoi cyfle i bartïon gydweithio i ddatrys unrhyw broblemau yn ystod y gwaith adeiladu, os bydd rhai'n codi. Mae hyn yn arbennig o bwysig gyda phrosiect mor gymhleth ac o'r hyd hwn.<br><br>Er bod yr Asesiad Risg Llwch yn cyfeirio at gynllun cyfathrebu, a bod cyfeiriad at gyfathrebu yn y Cynllun Rheoli Traffig Adeiladu Amlinellol, ystyriwn y dylid cael gofyniad clir bod cynllun cyfathrebu'n cael ei gynhyrchu ar gyfer y prosiect yn ei gyfanrwydd ar draws yr amrediad o faterion adeiladu. Yna, fe allai'r Cynllun gynnwys dulliau i'w defnyddio i gyfleu statws y prosiect a'r cymhlethdod sydd ynghlwm â'r amrywiol drefniadau rhoi caniatâd. Awgrymwn y gallai hyn gael ei gynnwys fel gofyniad cyffredinol yn y Cynllun Rheoli Amgylchedd Adeiladu [CEMP]. |

| | |
|---|---|
| | *Tir a mynediad ar gyfer y gwaith adeiladu*<br>Mae'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol wedi cynnal trafodaethau cynnar â'r Grid Cenedlaethol ac mae'n fodlon i'r manylion ynghylch y ddarpariaeth o ran cael mynediad i'n tir gael eu gadael am y tro, a bod hyn yn cael sylw'n nes at yr amser pan fydd y peilonau'n cael eu gwaredu gan y bydd angen trafodaethau manwl yn hyn o beth ac mae hyn yn rhywbeth sydd y tu hwnt i'r broses o wneud cais cynllunio. Fodd bynnag, mae'n werth nodi ymrwymiad y Grid Cenedlaethol yn yr EA y bydd y tir a ddefnyddiwyd dros dro yn yr ardal waith yn cael ei adfer ar ôl i'r holl waith adeiladu gael ei gwblhau, a hynny i'w gyflwr blaenorol neu cyn agosed at hynny â phosib, neu fel y cytunir â'r tirfeddianwyr a'r rhan-ddeiliaid ymlaen llaw, a '*areas of habitat will be restored to equivalent habitat condition post-construction'*. Croesawir hyn.<br><br>*Materion tirwedd a gweledol*<br>Rydym yn cefnogi casgliadau'r arfarniad o gymeriad y dirwedd sy'n ystyried y byddai effaith gyffredinol y prosiect arfaethedig yn '*highly beneficial'* o ran lleihau pwysigrwydd yr effaith y mae'r seilwaith yn ei gael ar hyn o bryd ar y canfyddiad o ran cymeriad, ansawdd a chyfanrwydd y dirwedd yn yr ardal hon.<br><br>Rydym yn cytuno y byddai cael gwared ar y pedwar peilon a'r sylfeini segur o gyn Beilon 4ZC030 o Ardal Tirwedd Arbennig Aber Glaslyn a Dwyryd a'r effeithiau anuniongyrchol drwy gael gwared ar beilonau eraill y tu allan i'r ATA yn cael effaith gyffredinol a fyddai hefyd yn *'highly beneficial'* o ran lleihau pwysigrwydd yr effaith ar nodweddion allweddol yr ATA hwn; yn enwedig gan mai un o'r nodweddion allweddol hyn yw'r ffaith ei fod yn cael ei ystyried yn lleoliad o bwys i Barc Cenedlaethol Eryri.<br><br>O ran effeithiau gweledol, rydym yn gwerthfawrogi bod rhannau o'r Adeilad Pen Twnnel Dwyreiniol, compownd gweithredol a'r ffordd fynediad i'w gweld mewn golygfeydd lletraws gan gyfran o gymuned Cilfor ac erbyn blwyddyn 15, byddai'r gwaith plannu coed cynhenid a sgrwb wedi'i ddylunio ar hyd y ffordd fynediad ac o amgylch y compownd yn help i fframio a ffiltro golygfeydd o'r seilwaith. Fodd bynnag, bydd llwyddiant y tirweddu hyn yn dibynnu ar ei reolaeth ac er y nodir bod gan y prosiect gynllun rheoli cynefinoedd, nid yw'n ymddangos ei fod yn cynnwys cynllun rheoli'r dirwedd cyffelyb. Rydym yn ystyried y dylid sicrhau'r gofyniad hwn drwy amod cynllunio er mwyn sicrhau bod dyluniad yr adeilad pen y twnnel yn integreiddio fel y rhagwelwyd i mewn i'r dirwedd leol. |

| | |
|---|---|
| | Rydym yn croesawu'r manylder sydd wedi'i gynnwys [2.3.5] ynghylch y ffens ddiogelwch ar gyfer yr adeiladau pen twnnel gorllewinol a dwyreiniol sy'n nodi y byddai lliw y ffens yn cael ei chytuno â'r awdurdod cynllunio perthnasol ac y bydd yn cyd-fynd ag adeilad pen y twnnel a'r amgylchedd gerllaw. Eto, rydym yn rhagweld y gallai amod cynllunio sydd wedi'i eirio'n addas ymdrin â'r mater hwn ynghyd â materion eraill megis manylion y deunyddiau adeiladu, goleuadau a chynnal a chadw a rheoli'r dirwedd.<br><br>Mae hi hefyd yn bwysig nodi nad yw'r astudiaeth yn arfarniad cronnus o ddatblygiad ac mae wedi ei gyfyngu i gymeriad y tirlun a materion mwynderau gweledol.<br><br>*Ecoleg*<br>Mae ymrwymiad y Grid Cenedlaethol i arolwg morfa heli sy'n ymdrin â'r llwybrau mynediad cyn y gwaith adeiladu a darparu clerc gwaith ecolegol ar gyfer y gwaith adeiladu [Adran 16.11] i'w groesawu.<br><br>Nodwn, cyn i'r gwaith cloddio ddigwydd ar Safle 4ZC031, bydd haen uchaf y ddol heli Iwerydd / morfa heli yn cael ei thrawsleoli dros dro a'i chynnal a'i chadw ac yna'i adleoli yn ddiweddarach i adfer y cynefin. Rydym yn cefnogi'r ymrwymiad hwn i gynnal arolwg morfa heli botanegol ar ôl y gwaith adeiladu ac y bydd yn cael ei gynnal yn y lleoliad hwn un flwyddyn ar ôl y gwaith adeiladu. Fodd bynnag, rydym yn argymell y dylid cael peth eglurder ynghylch y drefn cynnal a chadw ar gyfer y dolydd trawsleoledig i sicrhau trawsleoli ac y gellir cyflawni'r gwaith o'i adfer yn llwyddiannus. Gellid darparu methodoleg drwy'r Cynllun Rheoli Cynefinoedd.<br><br>Mae'r cyflwyniad yn egluro bod y cynefin *'valley mire'* mawn mewn cyflwr cymedrol ac mai'r ffosydd draenio presennol ar draws y cynefin sy'n ffactor mawr o ran lleihau ansawdd y cynefin hwn. Nodwn mai bwriad y Cynllun Rheoli Mawn Amlinellol yw gwella cyflwr y *'valley mire'* sydd wedi'i adfer i gyflwr da, ond hefyd gynyddu maint y cynefin hwn yn gyffredinol, drwy fewnlenwi ffosydd.<br><br>Mae'r cyflwyniad yn nodi, ar ôl i'r trac-ffordd a'r matio gael ei dynnu, y bydd adferiad y swbstrad mawn (o'i gywasgu) ac adferiad y planhigion yn digwydd o fewn 10 mlynedd a disgwylir i'r mawn wella yn y ffosydd draenio o gyflwr cymedrol i dda ymhen 10 i 15 mlynedd.<br><br>Yn amlwg, dros gyfnod o amser o'r fath, bydd yn bwysig gwneud gwaith monitro a bydd y Cynllun Amlinellol yn nodi'r holl gynefinoedd fydd yn cael eu monitro am gyfnod o amser a bydd yn cael ei gytuno â'r ymgynghoreion i wirio bod y cynefinoedd yn sefydlu eu hunain yn effeithiol. Fodd bynnag, mae'r argymhellion yn nodi '*for* |

| | |
|---|---|
| | *general guidance and are subject to ongoing discussions with consultees'.*<br><br>Rydym yn awgrymu y dylid cael sicrwydd ynghylch hyd y drefn monitro ac unrhyw gytundeb i fesurau adfer (lle mae'n briodol gwneud hynny) fel rhan o'r cyflwyniad i wneud yn siŵr bod hyn yn cael ei sicrhau o ran yr amserlenni sy'n cael eu hadlewyrch yn y dogfennau.<br><br>Cyn dad-gomisiynu [7.9.2], mae ymrwymiad i ailasesu effeithiau ecolegol a mesurau lliniaru perthnasol, gan roi ystyriaeth i unrhyw newidiadau mewn deddfwriaeth a chanllawiau asesu sy'n cael eu diweddaru yn ystod cam gweithredol y prosiect. Yn amlwg, ni wyddys beth allai esblygu yn ystod cyfnod y gweithrediad. Fodd bynnag, byddai'n briodol i amodau cynllunio wneud yr asesiad hwn yn ofyniad cyn y gwaith dad-gomisiynu a dylai adeiladau a seilwaith gael ei waredu ar ddiwedd y prosiect a dylid darparu cynllun dymchwel ac ail-leoli, er mwyn adfer yr amgylchedd lleol.<br><br>*Archeoleg*<br>Yn gyffredinol, rydym yn cefnogi'r cynllun gwaith lliniaru archeolegol sydd wedi'i gyflwyno gan y Grid Cenedlaethol i gyd-redeg â'r gwaith datblygu mewn perthynas ag archeolegol daearol a morwrol, ac i'r amgylchedd hanesyddol a threftadaeth ddiwylliannol ehangach, sy'n ymddangos<br>yn briodol ac yn gymesur i'r prosiect yn ei gyfanrwydd.<br><br>*Crynodeb a chasgliadau*<br>Yn olaf, i grynhoi, rydym yn cefnogi'n gryf y gwaith o waredu'r seilwaith presennol sy'n cael effeithiau andwyol arwyddocaol ar leoliad Parc Cenedlaethol Eryri ac er y bydd amhariad byrdymor yn gysylltiedig â'r gwaith o adeiladu'r datblygiad, bydd y cynnig yn gyffredinol yn arwain at welliannau sylweddol i'r dirwedd ac i'r gweledEdd.<br><br>Fodd bynnag, rydym yn cydnabod y bydd yr effeithiau mwyaf difrifol mewn perthynas ag archeoleg, treftadaeth ddiwylliannol a'r dirwedd yn cael eu teimlo gan dirfeddianwyr ac unigolion preifat cyfagos, ac efallai y bydd rhai ohonynt yn cael eu heffeithio'n ddifrifol yn y tymor byr a hwy. I'r perwyl hwn, byddai'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol yn annog y Grid Cenedlaethol i barhau i weithio'n agos â'r cymunedau lleol a bod yr awdurdodau lleol yn chwilio am ffyrdd o liniaru unrhyw<br>effeithiau hanfodol ac effeithiau nad oes modd eu hosgoi ymhellach.<br><br>Ym mhob agwedd, hyderwn y bydd yr Awdurdod yn ystyried yr angen am amodau cynllunio digon cadarn sy'n dilyn awgrymiadau Cyfoeth Naturiol Cymru, i sicrhau bod |

| | |
|---|---|
| | y mesurau lliniaru sydd wedi'u nodi a'r ymrwymiadau yn y dogfennau cyflwyno yn cael eu cyflawni. |

| | |
|---|---|
| Ymgynghoriad Cyhoeddus: | Rhoddwyd rhybudd ar y safle ac yn y papur lleol a rhoddwyd gwybod i drigolion cyfagos. Daeth y cyfnod hysbysebu i ben ar 15.04.2020 a derbyniwyd un llythyr / gohebiaeth gan The Campaign for National Parks yn cefnogi'r bwriad:<br><br>• Cynnig cyfle i wella cymeriad y dirwedd a mwynderau gweledol yr ardal |

**5. Asesiad o'r ystyriaethau cynllunio perthnasol:**

**Egwyddor y datblygiad**

5.1 Mae'r bwriad yn golygu codi adeilad pen twnnel y Gorllewin (gan gynnwys y compownd adeiladu cysylltiedig) ynghyd a thrac mynediad parhaol.

5.2 Mae'r adeilad sy'n destun y cais yn eithaf sylweddol, ond yn gyfystyr ag adeilad amaethyddol o ran maint, uchder a dyluniad, gyda dau big ar y to a siâp unffurf ar y waliau. Mae'r compownd hefyd yn eithaf sylweddol, ond mae'n cynnwys llecynnau parcio a lle troi, a byddai wedi ei amgylchynu gyda llethr glaswellt a llystyfiant ynghyd a ffens diogelwch hyd at 2.4m o uchder. Mae trac mynediad ynghyd a mynedfa gerbydol o'r newydd yn rhan o'r datblygiad ac yn darparu mynediad i'r safle. Mae bwriad gosod giât fferm ar y fynedfa.

5.3 Mae'r bwriad sy'n destun y cais yma yn rhan annatod o gynllun pellach i wella cyflwr gweledol yr ardal fel sydd wedi ei nodi yn y cefndir ar ddechrau'r adroddiad yma. Yr adeilad pen twnnel a'r compownd a mynedfa gysylltiol fydd yr unig ran o'r datblygiad a fydd yn barhaol ar y safle wedi'r gwaith twnelu cychwynnol a chysylltu'r gwifrau ddarfod. Mae'r safle wedi ei leoli y tu allan i unrhyw ffin ddatblygu (yr agosaf ym Mhenrhyndeudraeth oddeutu 550m i ffwrdd) ond mae'r lleoliad yma yn hanfodol ar gyfer y datblygiad oherwydd ei agosatrwydd at safle selio pen presennol Garth. Mae'r safle wedi bod yn destun trafodaethau sylweddol cyn cyflwyno'r cais gyda rhan-ddeiliad, ymgynghorwyr a'r cyhoedd cyn penderfynu ar yr union safle gerbron. Mae'r wybodaeth gynllunio a gyflwynwyd wedi ei adolygu a'i asesu ac yn gyffredinol fe gytunir â'r asesiad o effeithiau. Ni does amheuaeth y byddai'r cynllun yn ei gyfanrwydd yn cynnig budd cadarnhaol i'r ardal.

5.4 Ystyrir fod y datblygiad sy'n destun y cais yma yn dderbyniol o ran lleoliad, maint, graddfa a dyluniad ac yn cydweddu a chymeriad yr ardal ac i'r perwyl hyn ystyrir fod egwyddor y bwriad yn cydymffurfio a pholisïau PS5, PS6, PCYFF 1, 2, 3 4 o'r CDLl a NCT 12 Dylunio.

**Mwynderau gweledol**

5.5 Er bod y safle wedi ei leoli y tu allan i'r ffin ddatblygu agosaf, mae hefyd wedi ei leoli ar gyrion clwstwr diffiniedig pentref Minffordd, ac felly nid yw'n ymddangos fel ei fod wedi ei leoli ar dirwedd agored. Mae ffordd osgoi a'r rheilffordd wedi eu lleoli oddeutu 200m o'r safle, ac mae'r tai agosaf wedi eu lleoli bron iawn yn union drws nesaf i'r safle.

5.6 Mae'r safle'r cais wedi ei leoli y tu allan i Ardal Gwarchod y Dirwedd (sydd oddeutu 200m i ffwrdd) a Pharc Cenedlaethol Eryri (1km i ffwrdd) ac ni ystyrir y byddai'r bwriad sy'n destun y cais gerbron yn cael effaith ar y dynodiadau yma. Nodir fod rhannau eraill o'r datblygiad yn ei gyfanrwydd wedi ei leoli o fewn Ardal Gwarchod y Dirwedd a Pharc Cenedlaethol Eryri a bod y materion yma unai yn destun caniatâd presennol, ddim angen caniatâd cynllunio, neu yn destun cais cynllunio o fewn y Parc neu drwydded Cyfoeth Naturiol Cymru.

5.7 Mae'r bwriad yn golygu codi adeilad pen twnnel y Gorllewin (gan gynnwys y compownd adeiladu cysylltiedig) ynghyd a thrac mynediad parhaol, ac er bod yr adeilad sy'n destun y cais yn eithaf sylweddol mae'n cymharu gydag adeilad amaethyddol o ran maint, uchder a dyluniad. Byddai gan yr adeilad ddau grib a phant yn y canol er mwyn sicrhau siâp to ac uchder derbyniol a siâp unffurf i'r waliau. Mae hyn yn osgoi to nad yw yn rhy uchel neu '*pitch'* sydd yn rhy fas. Mae'r compownd hefyd yn eithaf sylweddol, ond mae'n cynnwys llecynnau parcio a lle troi oddi ar y ffordd gyfochrog, a byddai wedi ei amgylchynu gyda llethr glaswellt a llystyfiant ynghyd a ffens diogelwch hyd at 2.4m o uchder. Mae trac mynediad ynghyd a mynedfa gerbydol o'r newydd yn rhan o'r datblygiad ac yn darparu mynediad i'r safle. Mae bwriad gosod giât fferm ar y fynedfa.

5.8 Mae bwriad gorffen yr adeilad gyda charreg gyda gorffeniad llechen lwyd a chladin alwminiwm ar ffurf '*louvres'* ar ffrâm haearn ar y waliau a phaneli sinc ar y to ac mae manylion a lluniau o'r gorffeniadau yma wedi eu cyflwyno fel rhan o'r cais ac ystyrir eu bod yn dderbyniol. Mae bwriad darparu llawr caled i'r compownd a '*grasscrete'* neu debyg ar y trac mynedfa gerbydol. Mae trafodaethau helaeth o flaen llaw wedi bod gyda swyddogion y Cyngor a Phensaer Tirwedd Cyfoeth Naturiol Cymru am y materion hyn er mwyn sicrhau datblygiad priodol.

5.9 Mae Asesiad Gweledol a Thirwedd wedi ei gyflwyno fel rhan o'r cais. Mae'r asesiad yma yn cynnwys manylion tirwedd ac effaith weledol gan gynnwys montage ffotograffig sy'n dangos canlyniad y cynllun yn ei gyfanrwydd, ac mae cydnabyddiaeth fod dymchwel y peilonau yn cael effaith bositif weledol ac ar y dirwedd yn gyffredinol.

5.10 O fewn golygfeydd agos i adeilad pen y twnnel, mae dau effaith wahanol yn digwydd - byddai cael gwared ar y peilonau presennol yn dod â rhai buddion gweledol; tra byddai ychwanegu adeilad pen y twnnel yn cyflwyno ffurf adeilad newydd. Cytunir â'r Asesiad Gweledol a Thirwedd y byddai newid cymedrol yn digwydd. Byddai hyn yn lleihau i newid maint isel wrth i'r plannu sefydlu, deunyddiau'n addasu i'r amgylchiadau tywydd a'r adeilad yn dod yn rhan o'r dirwedd.

5.11 Er mwyn i'r cynllun gyflawni ei brif amcan (sef darparu buddion gweledol i Barc Cenedlaethol Eryri a chymunedau lleol) mae cydnabyddiaeth y byddai effaith dros dro o safbwynt y gwaith angenrheidiol o gael gwared ar seilwaith trydan mawr o aber Dwyryd. Byddai hyn yn golygu aflonyddwch datblygu ac adeiladu newydd o fewn ardal sydd â sensitifrwydd uchel o ran ei gymeriad tirwedd, ei amwynder gweledol, ei gynefinoedd a'i dreftadaeth ond rhaid pwysleisio nad yw'r agwedd yma yn ffurfio rhan o'r cais cynllunio hwn, fel sydd wedi ei esbonio yn rhan gyntaf o'r adroddiad yma.

5.12 Mae swyddogion cynllunio ynghyd a Chyfoeth Naturiol Cymru wedi bod yn rhan o nifer o gyfarfodydd ymgynghori cyn-ymgeisio ac ymgynghoriadau ffurfiol ar nifer o agweddau'r bwriad gan gynnwys ehangder yr Asesiad Tirwedd a'r safbwyntiau ar gyfer asesiad. Mae elfennau dylunio'r cynllun sy'n effeithio ar gymeriad ac amwynder gweledol wedi'u trafod ac wedi esblygu - yn benodol ymddangosiad yr adeilad pen y twnnel a'r dull o'i integreiddio i'r tirwedd.

5.13 Ar sail y wybodaeth a'r cynlluniau sydd wedi eu cyflwyno fel rhan o'r cais, ystyrir fod effeithiau hir dymor y bwriad yn dderbyniol o ran dyluniad, graddfa, deunyddiau, tirweddu ac effaith ar y dirwedd ac yn cydymffurfio a gofynion polisïau PCYFF 2, 3 a 4, AMG 2 a 3 o'r CDLl a NCT 12: Dylunio.

**Mwynderau cyffredinol a phreswyl**

5.14 Mae'r safle wedi ei leoli ar gyrion clwstwr diffiniedig pentref Minffordd, ac mae'r tai agosaf wedi eu lleoli bron iawn union drws nesaf i'r safle. Mae Teras Osmond wedi ei leoli i'r de i'r safle ar draws ffordd ddi-ddosbarth, ac mae clwstwr o dai (Y Graig, Glan Don a Rhos) wedi ei leoli i'r dwyrain o'r safle gyda thrac/llwybr anffurfiol rhyngddynt a'r safle.

5.15 Mae'r adeilad bwriedig i'w leoli oddeutu 30m i ffwrdd o'r trac anffurfiol, ac yna'r annedd agosaf Y Graig. Byddai'r fynedfa bwriedig oddeutu 25m i ffwrdd o gefn gerddi tai Teras Osmond. Mae bwriad darparu tirweddu ar ffurf llystyfiant o gwmpas yr adeilad, ac fel sydd wedi ei nodi uchod mae'r adeilad o faint, dyluniad a gorffeniad a fyddai'n gyfystyr a maint adeilad amaethyddol cyffredin a welir yn yr ardal leol.

5.16 Mae cydnabyddiaeth y byddai'r cynllun yn ei gyfanrwydd yn achosi anhwylustod, sŵn, dirgryniad, llwch a thraffig yn ystod y gwaith dros dro o dwnelu ac adeiladu'r adeilad pen twnnel. Byddai'r rhannau hynny sydd ddim yn destun y cais cynllunio gerbron yn destun trafodaeth a goruchwyliaeth gan Uned Gwarchod y Cyhoedd, sy'n delio gyda niwsans cyffredinol a Chyfoeth Naturiol Cymru a fydd yn trwyddedu'r gwaredu gwastraff. Nodir hefyd y byddai materion lliniaru sŵn a llwch, monitro dirgryniad, cynllun trafnidiaeth a rheoli llygredd yn ffurfio rhan o Gynllun Rheoli Amgylchedd Adeiladu a fydd yn destun amod cynllunio.

5.17 Wedi cwblhau'r gwaith tyllu ac adeiladu, byddai presenoldeb unrhyw staff yn achlysurol ac ni fyddai unrhyw draffig yn mynd a dod o'r adeilad/safle yn ddyddiol. Mae Uned Gwarchod y Cyhoedd wedi nodi oriau gwaith derbyniol ar gyfer y bwriad o adeiladu adeilad pen twnnel sy'n destun y cais fel Llun i Gwener 08:00-18:00 ac 08:00-13:00 ar y Sadwrn a dim o gwbl ar y Sul. Nodir fod symudiadau HGV hefyd yn disgyn o fewn yr oriau yma. Nodir byddai rhai eithriadau i'r oriau gwaith uchod ar gyfer y materion penodol sydd wedi eu cytuno gydag Uned Gwarchod y Cyhoedd. Mae'r eithriadau yma yn cynnwys gwaith twnelu, materion iechyd a diogelwch, a gwaith monitro. Gellir amodi materion sŵn, llwch, traffig ac oriau gwaith, niwsans ayyb sy'n deillio'n uniongyrchol o'r datblygiad sy'n destun y cais yma ac angen caniatâd cynllunio, a gall yr ymgeisydd ddiweddaru'r sefyllfa drwy gyflwyno diweddariad i'r Cynllun Rheoli Amgylchedd Adeiladau a fydd yn destun amod cynllunio.

5.18 Mae cydnabyddiaeth ei bod yn anorfod fod datblygiad o'r fath am gael peth effaith ar fwynderau cyffredinol a phreswyl trigolion cyfagos ond yn yr hir dymor ni ystyrir y byddai'r bwriad sy'n destun y cais yma yn debygol o gael effaith andwyol ar fwynderau cyffredinol na phreswyl unrhyw drigolion cyfagos. O ystyried yr effeithiau tymor byr o weithredu'r caniatâd mae modd rheoli ac/neu liniaru'r effeithiau i lefelau derbyniol ac ystyrir y gellir rheoli hynny drwy amodau cynllunio priodol fel sydd wedi'u crybwyll yn yr asesiad yma. O ganlyniad ystyrir fod y bwriad yn cydymffurfio gyda gofynion polisïau PCYFF 2 a 3 o'r CDLl a NCT 11: Sŵn.

**Materion trafnidiaeth a mynediad**

5.19 Mae'r bwriad yn golygu darparu mynedfa a thrac o'r newydd oddi ar ffordd dosbarth III sy'n rhedeg heibio'r safle. Mae'r Uned Drafnidiaeth wedi cadarnhau fod y ddarpariaeth parcio bwriedig a'r fynedfa yn dderbyniol ac nid oes gwrthwynebiad i'r

bwriad yn ddarostyngedig i amodau a nodiadau sy'n ymwneud a darparu mynedfa foddhaol a gwaith ffyrdd. Mae Uned Cefnffyrdd hefyd wedi cadarnhau nad oes ganddynt wrthwynebiad i'r bwriad yn ddarostyngedig i amod i gyflwyno a chytuno Cynllun Rheoli Traffig Adeiladu o flaen llaw.

5.20 Nodir fod yr Uned Drafnidiaeth eisoes mewn trafodaethau gyda'r Grid Cenedlaethol ynglŷn â'r effaith traffig o ganlyniad i'r gwaith twnelu a thynnu'r peilonau ac yn delio'n uniongyrchol gyda'r Grid parthed y materion yma nad yw'r ffurfio rhan o'r cais cynllunio gerbron. Er hyn, byddai Cynllun Trafnidiaeth yn ffurfio rhan o wybodaeth fydd yn destun Cynllun Rheoli Amgylchedd Adeiladu a fydd yn destun amod cynllunio.

5.21 Ar sail hyn, ystyrir fod y bwriad yn dderbyniol ac yn cydymffurfio a gofynion polisïau PS4, TRA2 a TRA4 o'r CDLl a NCT 18: Trafnidiaeth.

**Materion bioamrywiaeth**

5.22 Mae gwybodaeth helaeth wedi ei gyflwyno fel rhan o'r cais sy'n ymwneud a materion Bioamrywiaeth, ac mae'r wybodaeth hynny o ganlyniad i drafodaethau helaeth o flaen llaw rhwng yr Uned Bioamrywiaeth a'r Grid Cenedlaethol, ac ar gyfer y cynllun yn ei gyfanrwydd yn ogystal â'r hyn sydd destun y cais cynllunio gerbron.

5.23 Mae mesurau lliniaru wedi eu cynnig ar gyfer lleihau effaith y datblygiad ar ystlumod a'u poblogaeth gan gynnwys lleihau defnydd golau artiffisial, osgoi golau mewn ardaloedd sensitif yn ystod y broses adeiladu, a'r defnydd o gyflau (*cowls*) i osgoi taflu golau ar ardaloedd sensitif. Mae'r Uned Bioamrywiaeth yn fodlon gyda'r mesurau lliniaru yma yn ddarostyngedig i amodau i sicrhau fod manylion llawn yn cael eu cyflwyno i a'u cytuno o flaen llaw gyda'r ACLl.

5.24 Mae safle'r cais yn agos at Safle Ewropeaidd: Ardal Cadwraeth Arbennig (ACA) Coedlannau a Safleoedd Ystlumod Meirionnydd. Un o nodweddion y dynodiad yma yw Ystlumod Pedol Lleiaf. Mae'r Uned Bioamrywiaeth ar ran Cyngor Gwynedd, fel Awdurdod Cymwys wedi cynnal Asesiad Rheoliadau Cynefin o dan Reoliad 63 y Rheoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau 2017 (fel y'u diwygiwyd) fel sy'n ofynnol cyn gallu penderfynu ar y cais.

5.25 Mae'r datblygwr wedi cyflwyno dogfen "*Visual Impact Provision (VIP) Project – Snowdonia Project – Habitat Regulations Assessment Report, REV01, Will Holden, 02/12/2019"* fel cymorth i'r Awdurdod gynnal yr asesiad. Mae'r adroddiad yn nodi trywydd effaith posibl ar ACA Coedlannau Meirionnydd a Safleoedd Ystlumod. Mae'r adroddiad yn mynd ymlaen i'r cam Asesiad Priodol ac yn ystyried defnydd y mesurau lliniaru a nodir uchod. Canlyniad y ddogfen yw, cyn belled â bod y mesurau lliniaru a ddisgrifir yn yr adroddiad yn cael eu gweithredu, na fydd y datblygiad yn debygol o gael effaith negyddol ar yr ACA. Mae'r Uned Bioamrywiaeth, ynghyd â Chyfoeth Naturiol Cymru yn cytuno gyda chanlyniadau'r ddogfen yma.

5.26 Oherwydd y defnydd o fesurau lliniaru sydd yn gallu cael eu hamodi, mae'r Uned Bioamrywiaeth yn cadarnhau y gall Cyngor Gwynedd fod yn hyderus na fydd y datblygiad yn arwain at Effaith Arwyddocaol Negyddol ar nodweddion na phrosesau Ardal Cadwraeth Arbennig Coedlannau Meirionnydd a Safleoedd Ystlumod.

5.27 Mae Polisi Cynllunio Cymru 10 yn pennu bod "*yn rhaid i awdurdodau cynllunio gynnal a gwella bioamrywiaeth wrth ymarfer eu swyddogaethau. Golyga hyn na ddylai datblygiadau achosi unrhyw golli cynefinoedd neu boblogaethau sylweddol o rywogaethau, yn lleol neu'n genedlaethol ac mae'n rhaid sicrhau manteision net ar*

*gyfer bioamrywiaeth*" (para 6.4.5). Mae'r polisi hwn a pholisïau dilynol ym Mhennod 6 Polisi Cynllunio Cymru 10 yn ymateb i Adran 6 Deddf Dyletswydd yr Amgylchedd (Cymru) 2016.

5.28 Mae llythyr Prif Gynllunydd Llywodraeth Cymru (Hydref 2019) yn datgan bod sicrhau mantais net ar gyfer bioamrywiaeth o fewn cyd-destun Polisi Cynllunio Cymru yn galw am ymateb pragmatig i amgylchiadau penodol y safle. Trwy ddefnyddio'r dull fesul cam (Polisi Cynllunio Cymru paragraff 6.4.21) sy'n cadarnhau achosion priodol, gellir sicrhau mantais net ar gyfer bioamrywiaeth trwy greu cynefinoedd ac/neu drefniadau rheoli hirdymor i wella cynefinoedd presennol, i wella bioamrywiaeth a chadernid ecosystemau.

5.29 Mae'r bwriad gerbron yn golygu plannu gwrychoedd newydd, cryfhau gwrychoedd presennol a chreu/gwella cynefinoedd o fewn ac o gwmpas safle'r cais hwn, safle presennol y Grid Cenedlaethol yn Garth ynghyd a safleoedd bychain eraill. Mae'r cynigion yma yn gyfystyr a gwelliant o oddeutu 2.5% o'i gymharu â'r sefyllfa bresennol.

5.30 Nodir hefyd fod y cynllun yma yn ei gyfanrwydd yn gynllun sylweddol sy'n croesi ffiniau Awdurdodau Cynllunio ac mae'r ymgeisydd yn cynnig buddion ar draws ardal y prosiect sy'n cynnwys ardaloedd sydd y tu allan i ffiniau'r cais cynllunio yma yn ogystal â rhai o fewn ardal Parc Cenedlaethol Eryri.

5.31 Felly, wrth edrych yn bragmatig ar y sefyllfa ac ystyried nodweddion y safle presennol sy'n gae amaethyddol glaswelltir, a'i gyflwr ecolegol presennol a'r hyn sy'n cael ei gynnig fel cynlluniau lliniaru a gwelliannau ystyrir fod y fantais net yn dderbyniol o dan yr amgylchiadau. O ganlyniad, ystyrir fod y bwriad, yn ddarostyngedig i amodau cynllunio i sicrhau gweithredu'r gwelliannau ynghyd a monitro'r gwelliannau i'r dyfodol, yn cydymffurfio a gofynion Polisi Cynllunio Cymru a Deddf Dyletswydd yr Amgylchedd (Cymru) 2016. Yn yr un modd ystyrir fod y bwriad yn cydymffurfio a gofynion polisïau PS19 ac AMG5 o'r CDLl a NCT 5: Cynllunio a Chadwraeth Natur.

**Materion Archeolegol a Threftadaeth**

5.32 Mae'r safle wedi ei leoli ar gyrion clwstwr diffiniedig pentref Minffordd, ac mae clwstwr o dai (Y Graig, Glan Don a Rhos) wedi ei leoli i'r dwyrain o'r safle gyda thrac/llwybr anffurfiol rhyngddynt a'r safle. Mae Rhos yn adeilad rhestredig Gradd II, a'r eiddo rhestredig agosaf i'r lleoliad yma, ond oherwydd y pellter a hefyd y coed aeddfed o amgylch yr eiddo a'r bwriad o dirlunio, ni chredir y byddai'r bwriad yn debygol o gael unrhyw effaith ar gymeriad yr adeilad na'r gosodiad. Mae'r Uwch Swyddog Cadwraeth wedi cadarnhau nad oes gwrthwynebiad i'r bwriad ar sail hyn.

5.33 Mae'r safle sy'n destun y cais wedi ei leoli o fewn Tirwedd Hanesyddol Gofrestredig Ardudwy ac Aberglaslyn, ac mae'r wybodaeth sydd wedi ei gyflwyno fel rhan o'r cais o fewn Pennod 8 o'r Adroddiad Gwerthuso Amgylcheddol (Asesiad Archeoleg a Threftadaeth Ddiwylliannol) yn awgrymu y byddai unrhyw effaith andwyol uniongyrchol yn fychan iawn, ar y mwyaf, ac yn cael ei orbwyso gan y gwelliant yn y tirweddau hanesyddol hynny trwy gael gwared ar y peilonau presennol yn yr ardal. Yn yr un modd, bydd unrhyw effaith ar osodiad parc a gardd hanesyddol gofrestredig Portmeirion yn ystod y gwaith adeiladu yn cael ei orbwyso'n llwyr gan y buddion a geir o gael gwared ar y peilonau. Mae CADW wedi cadarnhau eu bod yn cytuno gyda'r asesiad yma ac felly nid ydynt yn gwrthwynebu'r bwriad ac yn cydnabod y budd cyffredinol gweledol o ganlyniad i'r cynllun yn ei gyfanrwydd.

5.34 Mae Pennod 8 o'r Adroddiad Gwerthuso Amgylcheddol hefyd yn nodi bod gan yr holl waith y tu allan i ôl troed datblygiad presennol y potensial i ddod ar draws archeoleg anhysbys ar hyn o bryd. Disgwylir i unrhyw weddillion o'r fath fod yn gysylltiedig â gweithgaredd dwysedd isel sy'n gysylltiedig â'r aber, a all ddyddio o unrhyw gyfnod, gyda photensial penodol i ddod ar draws ffordd Rufeinig sydd wedi'i phostio i basio trwy'r ardal gyffredinol hon. Mae'n annhebygol y bydd olion o'r fath yn cael eu nodi trwy werthuso caeau a dim ond trwy gloddio ar raddfa fawr neu yn ystod gwaith adeiladu y byddant yn dod i'r amlwg.

5.35 Ar sail hyn, mae Gwasanaeth Cynllunio Archeolegol Gwynedd yn argymell, pe rhoddir caniatâd cynllunio, y dylai'r awdurdod cynllunio lleol fynnu bod lliniaru archeolegol addas yn cael ei weithredu. Ar sail hyn, mae'r Gwasanaeth Cynllunio Archeolegol Gwynedd wedi cadarnhau nad oes gwrthwynebiad i'r bwriad.

5.36 Ar sail yr uchod felly, ystyrir fod y bwriad gerbron yn dderbyniol ac yn cydymffurfio a gofynion polisïau PS20, AT1 ac AT4 o'r CDLl ynghyd â NCT: 24 'Yr Amgylchedd Hanesyddol'.

**Materion llifogydd a chadwraeth dŵr**

5.37 Mae safle'r cais wedi ei leoli yn gyfan gwbl o fewn parth llifogydd C2, ac mae Asesiad Canlyniad Llifogydd wedi ei gyflwyno fel rhan o'r cais.

5.38 Gan fod y bwriad gerbron ar gyfer isadeiledd cyfleustodau, mae'r defnydd yn disgyn o dan ddiffiniad datblygiadau sy'n llai agored i niwed fel y nodir yn Ffigwr 2 o fewn rhan 5 o NCT 15: Datblygu a Pherygl o Lifogydd. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru wedi adolygu'r Asesiad (*Stantec, Darpariaeth Effaith Weledol (VIP) - Prosiect Eryri, dyddiedig 03/12/2019*), a gyflwynwyd i gefnogi'r datblygiad ac maent yn fodlon bod y cynigion ar gyfer Adeilad Pen Twnnel y Gorllewin yn dderbyniol o ran risg llifogydd ac ni fydd yn cael effaith niweidiol ar drydydd partïon o ran colli'r gorlifdir sydd ar gael. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru hefyd wedi cadarnhau bydd y risg llifogydd sy'n gysylltiedig â'r Cyfnodau Adeiladu a Dad-gomisiynu yn cael ei gwmpasu gan y Drwydded Forol lle bo hynny'n berthnasol, a Thrwydded Gweithgaredd Risg Llifogydd (FRAP) yn ôl yr angen. Bydd angen Datganiad Dull manwl sy'n ymdrin â risg llifogydd a mesurau lliniaru maes o law fel rhan o'r ceisiadau hyn.

5.39 Nid oes gan Uned Draenio'r Cyngor wrthwynebiad i'r bwriad a nodi fod bwriad i osod cylfat o fewn y ffos sy'n croesi'r safle er mwyn caniatáu mynediad iddo. Mae'r Uned yn cadarnhau byddai angen Caniatâd Cwrs Dŵr Arferol ar gyfer unrhyw waith a allai effeithio ar lif y ffos yma. Mae Dŵr Cymru wedi cadarnhau bydd angen sicrhau modd derbyniol o ddelio gyda gwastraff dwr budr, ac yn cynnig amod i sicrhau hynny.

5.40 Ar sail yr uchod a bod y bwriad yn disgyn o dan ddiffiniad datblygiadau sy'n llai agored i niwed a bod Cyfoeth Naturiol Cymru wedi cadarnhau fod y risg llifogydd yn dderbyniol, ystyrir fod y bwriad yn cydymffurfio gyda gofynion Polisïau PS5 a 6 a PCYFF 6 o'r CDLl a NCT 15: Datblygu a Pherygl Llifogydd.

**Materion Iaith**

5.41 Nid yw'r datblygiad sy'n destun y cais yn cyrraedd trothwyon Polisi Strategol PS1 sy'n hyrwyddo a chefnogi'r defnydd o'r iaith Gymraeg yn ardal y Cynllun. Er hyn, mae Datganiad Iaith Gymraeg wedi ei gyflwyno fel rhan o'r cais ac wedi ei asesu gan Reolwr Gwasanaeth Iaith.

5.42 Mae'r Gwasanaeth Iaith yn fodlon gyda'r datganiad iaith sydd wedi ei gyflwyno, oherwydd natur y cais a'r gwaith dan sylw. Mae'n amlwg bod y Grid Cenedlaethol wedi ystyried pwysigrwydd y Gymraeg yn yr ardal ac yn ymwybodol iawn o'r angen i gyfathrebu yn ddwyieithog. Mae'r Grid hefyd yn nodi y byddant yn defnyddio gweithwyr lleol lle bo hynny yn bosib felly nid yw'r Gwasanaeth Iaith yn gwrthwynebu'r bwriad.

5.43 Ar sail y wybodaeth sydd wedi ei gyflwyno felly, mae'r bwriad yn cydymffurfio a gofynion polisi PS 1 o'r CDLl, CCA: Cynnal a Chreu Cymunedau Nodedig a Chynaliadwy ac NCT 20: Cynllunio a'r Iaith Gymraeg.

**Materion Mwynau**

5.44 Mae'r safle wedi ei leoli o fewn cylchfa rhagod Chwarel Minffordd sydd wedi ei leoli oddeutu 250m i ffwrdd. Mae'r cylchfa rhagod yma yn berthnasol ar gyfer asesu effaith llwch o'r chwarel ar ddatblygiadau sensitif (e.e. tai preswyl a gwestai ayyb). Gan nad yw'r bwriad gerbron yn cynnwys unrhyw elfen sensitif, ystyrir ei fod yn dderbyniol o ran hyn.

5.45 Mae Gwasanaeth Mwynau a Gwastraff Gogledd Cymru wedi bod mewn trafodaethau gyda'r Grid Cenedlaethol yn benodol ar gyfer delio gyda deilliant gwastraff a fydd yn codi o'r gwaith twnelu. Nid yw'r elfen yma yn rhan o'r cais cynllunio gerbron, ond byddai'r Gwasanaeth Mwynau a Gwastraff, ynghyd a Chyfoeth Naturiol Cymru a fydd yn gyfrifol am unrhyw drwyddedau yn trin a thrafod lleoliadau addas ar gyfer y deilliant gwastraff. Byddai trafodaethau pellach ynglŷn â'r mater yma yn deillio o asesiad pellach o'r sefyllfa ac yng nghyd-destun Cynllun Rheoli Amgylchedd Adeiladau.

5.46 Ar sail y wybodaeth sydd wedi ei gyflwyno a'r bwriad sydd gerbron, ystyrir felly fod y bwriad yn cydymffurfio â gofynion polisïau PS22 a MWYN 5 o'r CDLl.

**Materion Rheoli Carbon**

5.47 Mae polisi PCYFF 5 yn nodi bydd angen i ddatblygiadau ddangos sut roddwyd sylw i'r goeden ynni ym mholisi PS6 manteisio i'r eithaf ar y cyfraniad o dechnoleg ynni adnewyddadwy neu garbon isel i fodloni gofynion y cynnig am drydan a gwres. Pan fo hynny'n briodol, cefnogir cyd-leoli datblygiadau er mwyn optimeiddio cyfleoedd ar gyfer cysylltu gyda chyfarpar ynni adnewyddadwy neu garbon isel.

5.48 Mae Datganiad Rheoli Carbon wedi ei gyflwyno fel rhan o Ddatganiad Dylunio a Mynediad y cais. Mae'r datganiad yma yn dangos sut mae'r ymgeisydd wedi cysidro'r hierarchaeth ynni sy'n cynnwys lleihau'r galw am ynni, effeithlonrwydd ynni a defnyddio technolegau ynni carbon isel neu ynni di-garbon lle bo hynny'n ymarferol ac yn hyfyw. Mae'r datganiad yn nodi targedau cyffredinol y Grid Cenedlaethol ar gyfer lleihau carbon yn gyffredinol, a bod yna Weithred Rheoli Amgylcheddol yn ei le i reoli'r targedau.

5.49 Mae'r datganiad yn cysidro agweddau technolegau ynni carbon isel nu di-garbon; effeithlonrwydd egni ac allyriadau a gwastraff yn ystod y cyfnod adeiladu ac effeithlonrwydd a lleihau'r angen am egni yng nghyfnod gweithredol yr adeilad pen twnnel ac yna wrth ddad-gomisiynu. Mae'r mesurau yma yn cynnwys lleihau traffig cymaint â phosib a defnyddio dulliau ynni isel cymaint â phosib. Ystyrir fod y camau yma o fudd i warchod mwynderau gweledol, yr amgylchedd naturiol, adeiledig a hanesyddol y tirlun, a bod y Grid Cenedlaethol yn ymgysylltu a chymunedau'r ardal yn gyson yn unol â gofyniad y polisi.

5.50 Ar sail y wybodaeth a gyflwynir ystyrir fod y datblygiad wedi ystyried yr hierarchaeth ynni ac yn ceisio gweithredu mor effeithlon â charbon isel â phosib. Ystyrir felly fod y bwriad yn cydymffurfio a gofynion polisïau PS6 ac PCYFF5 o'r CDLl.

**Materion Eraill**

5.51 Fel sydd wedi ei amlygu uchod, mae'r bwriad gerbron yn rhan o gynllun llawer mwy sy'n croesi ffiniau Awdurdodau Cynllunio Lleol ynghyd a'r Ddwyryd gyda rhannau o'r bwriad y tu allan i reolaeth y drefn gynllunio.

5.52 Noder mai dim ond y datblygiad sydd wedi ei asesu uchod sy'n destun y cais cynllunio sydd gerbron Awdurdod Cynllunio Gwynedd, mae gweddill y datblygiad (fel sydd wedi ei nodi yn y rhan o'r adroddiad sy'n gosod allan cefndir y cais) unai wedi ei leoli o fewn ffiniau Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri (ac yn destun cais cynllunio ar wahân), neu yn cael ei ddelio ag o dan ddeddfau ar wahân, neu ddim angen caniatâd cynllunio ffurfiol fel sydd eisoes wedi ei nodi a'i egluro ar ddechrau'r adroddiad yma.

5.53 Fel sydd hefyd wedi ei nodi mae'r bwriad wedi ei sgrinio gan Awdurdodau Cynllunio Gwynedd a Pharc Cenedlaethol Eryri yn ogystal â Chyfoeth Naturiol Cymru. Mae'r casgliadau sgrinio yn cadarnhau nad yw'r bwriad yn ddatblygiad sy'n destun Asesiad Effaith Amgylcheddol.

5.54 Er mwyn rhoi sicrwydd am agweddau o'r bwriad, ac oherwydd bod y cynllun yn ei gyfanrwydd yn fwy na'r hyn sy'n destun y cais yma yn unig a bod angen sicrhau nad oes effeithiau amgylchedd annerbyniol o ganlyniad i'r gwaith yma, bydd unrhyw ganiatâd cynllunio yn destun amod cynllunio i gyflwyno a chytuno Cynllun Rheoli Amgylchedd Adeiladu ar gyfer rheoli amryw o agweddau o'r gwaith gan gynnwys materion rheoli oriau gwaith, trafnidiaeth, dŵr, llygredd, pentyrru, deillion gwastraff safle a deunyddiau, gwaith i goed, risg bioddiogelwch, sŵn, llwch, dirgryniad, materion Bioamrywiaeth a gwaith dros dro mewn cyswllt a'r datblygiad yn ei gyfanrwydd a bydd y materion yma yn cael eu cytuno mewn ymgynghoriad gyda'r cyrff perthnasol.

## 6. Casgliadau:

O ystyried yr uchod ac wedi ystyried yr holl faterion cynllunio perthnasol yn llawn gan gynnwys polisïau a chanllawiau lleol a chenedlaethol, credir fod y bwriad sy'n destun y cais yma yn dderbyniol a'i fod yn cydymffurfio a gofynion y polisïau perthnasol fel y nodir uchod.

## 7. Argymhelliad:

7.1 Caniatáu - amodau:

1. 5 mlynedd
2. Unol â'r cynlluniau a'r asesiadau a gyflwynwyd fel rhan o'r cais
3. Lliw ffens
4. Priffyrdd
5. Cefnffyrdd
6. Amodau CNC
7. Dŵr Cymru
8. Oriau gwaith – ac amodau eraill Gwarchod y Cyhoedd
9. Bioamrywiaeth
10. Archeolegol

11. CEMP
12. Cynllun rheoli tirweddu a monitro

Nodiadau
Priffyrdd
Dŵr Cymru

Dylai'r holl weithrediadau sy'n cynnwys gwaredu, trin neu adfer deilliannau twnnel gael eu cyflawni yn unol â hierarchaeth gwastraff ac amcanion y cynllun rheoli gwastraff amlinellol. Cysylltwch â Gwasanaeth Cynllunio Gwynedd a Chyfoeth Naturiol Cymru mewn perthynas â gofynion y Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol neu statws cynllunio unrhyw gyfleuster rheoli gwastraff neu safle arall a nodwyd ar gyfer derbyn, trin neu waredu unrhyw ddeilliant gwastraff.